# Adroddiad Monitro Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEF Caerdydd

## Ar gyfer blwyddyn adrodd
## 1 Medi 2023 tan 31 Awst 2024

**Cyhoeddwyd Ionawr 2025**

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 6 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 15 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 18 |
| 6. | Iechyd a lles | 24 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 30 |
| **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | | |
| Ystadegau'r Bwrdd | | 37 |
| Ceisiadau i'r Bwrdd | | 37 |
| **Atodiad A** | | |
| Darparwyr gwasanaethau | | 31 |


**Cyhoeddir holl adroddiadau'r Byrddau Monitro Annibynnol yn www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i bob carchar gael ei fonitro gan fwrdd annibynnol. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penodi aelodau'r bwrdd hwn, o blith aelodau'r gymuned leol yn ardal y carchar.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno â Gweinidogion, mae gofyn i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rheini sy'n cael eu cadw yn y carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi at gael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo, fel y barna'r Bwrdd yn briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol am ba mor dda y mae'r carchar wedi cyflawni'r safonau a'r gofynion disgwyliedig, ac am effaith y rhain ar y bobl sydd yn y carchar.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau'r hawl i gysylltu â phob carcharor, i fynd i bob rhan o'r carchar, ac i weld cofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n ceisio cryfhau'r modd y gwarchodir pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed, ac mae'n ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau ym mhob dalfa. Mae OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau ddynodi Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol er mwyn cynnal ymweliadau â dalfeydd, monitro'r modd y caiff carcharorion eu trin, monitro amodau carcharorion, a gwneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Carchar hyfforddi lleol categori B i ddynion yw CEF Caerdydd (Carchar Caerdydd), a hwnnw wedi'i leoli yng nghanol y ddinas. Agorodd y carchar yn 1832, ac mae'r llety'n dal i gynnwys tair adain o'r oes Sioraidd. Yn dilyn rhaglen adnewyddu fawr yn 1996, agorwyd tair adain llety newydd. Erbyn hyn mae saith adain (A, B, C, D, E, F a'r ganolfan gofal iechyd), gyda thair uned ychwanegol ar wahân yn rhan o'r adeiniau hynny (A1, B1 ac F1). Mae gan y carchar hefyd amrywiaeth o gyfleusterau eraill, gan gynnwys campfa, caplaniaeth, ac amryw o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008, ac mae ynddi 20 o welyau.

Mae'r carchar yn gwasanaethu de-ddwyrain Cymru a'r cymoedd yn bennaf, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo yno o garchardai yn Lloegr. Mae'n darparu'n bennaf ar gyfer carcharorion sydd wedi cael dedfrydau byr, carcharorion ar remand, a'r rheini sy'n aros i gael eu dedfrydu. Mae gan y carchar lety arferol ardystiedig o 534[1] (nifer y carcharorion y gall carchar ei ddal heb fod yn orlawn) a chapasiti gweithredu o tua 779 (uchafswm nifer y carcharorion y gellir eu dal heb risg ddifrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a chynnal y gyfundrefn yn briodol). Serch hynny, yn ystod y flwyddyn adrodd, amrywiodd y capasiti gweithredu a gostyngodd i 774 tua diwedd y cyfnod adrodd wrth i brosiect fynd rhagddo i adnewyddu celloedd. Mae mwyafrif llethol y carcharorion yn cael eu rhoi mewn celloedd sy'n dal dau.

**O ran ei boblogaeth, mae Carchar Caerdydd wedi parhau i wynebu pwysau sylweddol a pharhaus dros y cyfnod adrodd.** Rhwng 1 Medi 2023 a 31 Awst 2024, derbyniwyd neu trosglwyddwyd 3,853 o garcharorion i'r carchar, cafodd 2,545 eu rhyddhau, a throsglwyddwyd 1,208 i sefydliadau eraill. Mae hi'n annhebygol y bydd modd lleihau'r pwysau hwn oni bai bod camau sylweddol yn cael eu cymryd ar lefel genedlaethol. Mae'r Llywodraeth a etholwyd ym mis Mai 2024 wedi datgan bod mynd i'r afael â charchardai gorlawn yn flaenoriaeth, ac mae wedi parhau â'r cynllun rhyddhau'n gynnar, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol ym mis Hydref 2023. Mae'r gyfundrefn arferol yn cynnwys addysg amser llawn, gwaith yng ngweithdai'r carchar, a chyrsiau hyfforddiant. Mae'r adran addysg hefyd yn cynnig cwrs datblygiad cymdeithasol personol i garcharorion, yn ogystal â chyrsiau sy'n seiliedig ar waith.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi arolwg o Garchar Caerdydd (29 Ionawr tan 5 Chwefror 2024). Cafodd y carchar sgôr o '3 – Da' ym mhob agwedd: diogelwch, parch, gweithgareddau pwrpasol a pharatoi at ryddhau.

Er hynny, tynnodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) sylw at bryderon a fynegwyd gan y Bwrdd yn ein hadroddiad yn 2022-2023. Yn eu plith roedd gorlenwi a'r ffaith bod mwyafrif y boblogaeth yn rhannu celloedd oedd i fod i un; y cyffuriau anghyfreithlon a oedd ar gael; a gwendidau wrth ddarparu sesiynau gweithwyr allweddol, wrth addysgu, ac yn y cwricwlwm. Yn fwy cadarnhaol, aseswyd bod y carchar yn lân ac yn sefydlog, ac yn perfformio'n well na charchardai tebyg wrth gyflawni o dan y rhan fwyaf o'r elfennau sy'n ymwneud â diogelwch. Roedd y Llywodraethwr a'r uwch dîm yn weladwy, ac roedd perthnasau cadarnhaol rhwng y staff a charcharorion yn sail i'r diwylliant o ddangos parch a geid yno. Roedd amser y tu allan i'r gell yn cael ei roi'n fwy cyson nag mewn carchardai tebyg.

[1] Gwybodaeth leol gan reolwyr y carchar yw'r ffigurau sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn. Maen nhw'n adlewyrchu sefyllfa'r carchar ar adeg llunio'r adroddiad, ond gallan nhw newid ar ôl gwneud gwaith dilysu pellach. Gan hynny, efallai na fyddan nhw bob amser yn gyson ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 3. Pwyntiau allweddol

## 3.1 Y prif ganfyddiadau

### Diogelwch

- Mae’r Bwrdd yn pryderu am y cynnydd sylweddol (63%) yn lefel yr hunan-niweidio yn y flwyddyn adrodd hon o’i gymharu â’r llynedd. Cydnabyddir bod HMIP, yn ei arolwg yn 2024, wedi dweud bod hunan-niweidio yn is na’r cyfartaledd wrth gymharu’r carchar â charchardai tebyg.
- Mae’r Bwrdd hefyd yn pryderu am y cynnydd yn yr adroddiadau am ddigwyddiadau treisgar – cynnydd o 57% ers y flwyddyn adrodd flaenorol (o 180 i 283) – ac am y cynnydd o 68% yn y defnydd o rym (o 507 i 852[2]).
- Yn ein hadroddiad yn 2022-2023, cyfeiriwyd at gynnydd yn nifer y trosglwyddiadau i’r carchar o’r tu allan i’r ardal. Er i hynny arafu, bu llawer o sôn yn y cyfnod adrodd am y pwysau ar boblogaeth carchardai, a wynebodd Carchar Caerdydd y pwysau hwn hefyd, fel cynifer o sefydliadau eraill drwy’r ystâd.

### Triniaeth deg a dyngarol

- Croesawodd y Bwrdd y rhaglen sy’n dal i fynd rhagddi i adnewyddu celloedd. Oherwydd oedran y carchar, mae problemau gyda’r llety (fel diffyg dŵr poeth, y ffaith bod adeiniau naill ai’n rhy boeth neu’n rhy oer yn dibynnu ar y tywydd, a fermin) yn parhau i fod yn amlwg iawn yn ystod 2023-2024.
- Fel yn adroddiadau blynyddoedd blaenorol, mae’r Bwrdd yn nodi nad yw’n dderbyniol nad oes gan garcharorion le y tu allan i’r gell i fwyta. Yn hytrach, maen nhw’n bwyta mewn celloedd y maen nhw’n eu rhannu, gyda thoiled y maen nhw’n ei rannu yn y gofod hwnnw hefyd.
- Mae’r Bwrdd yn argymell y dylid gwella’r broses o gasglu data er mwyn canfod ad-droseddwyr yn yr uned gofal a gwahanu (CSU). Byddai hyn yn fodd o beidio â chreu darlun a allai fod yn anghymesur.
- Mae’r Bwrdd yn dal i bryderu am nifer y carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy’n cael eu cadw yn y CSU.
- Hoffai’r Bwrdd gydnabod y gostyngiad sylweddol mewn ceisiadau (cyflwyniadau ysgrifenedig gan y carcharorion i’r Bwrdd Monitro Annibynnol) am eiddo coll yng Ngharchar Caerdydd. Roedd hyn yn broblem a gofnodwyd yn gyson yn ystod y flwyddyn flaenorol. Hoffai’r Bwrdd nodi’r gwaith a wnaeth y swyddogion ac uwch staff i gyflawni hyn.
- Fel y nodwyd yn adroddiad arolwg HMIP, mae’r ffordd anghyson y caiff y cynllun gweithwyr allweddol ei ddarparu yn bryder o hyd i’r Bwrdd.

### Iechyd a lles

- Roedd hi’n siomedig gweld bod y ceisiadau i’r Bwrdd a oedd yn ymwneud yn benodol â phroblemau presgripsiynu/meddyginiaeth wedi dyblu. Roedd hyn yn golygu mai dyma oedd y pwnc a godwyd amlaf, drwyddi draw. Er y cydnabyddir y gallai’r swyddi meddygon teulu gwag fod wedi cyfrannu at hyn, bu’n bryder cyson ers blynyddoedd lawer, ac mae angen mynd i’r afael â hyn.

[2] Dangosodd adroddiad blynyddol gwreiddiol 2023-2024, a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2025, y bu 1005 achos o ddefnyddio grym (UoF). Roedd hyn yn anghywir, a’r ffigur wedi’i ddiweddaru yw 852.

- Mae'r Bwrdd yn awyddus i fynegi'i bryder am lefel y staff sy'n gweithio dros y penwythnos yn y tîm iechyd meddwl, yn sgil y galw sylweddol am gymorth iechyd meddwl yn y carchar.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu'r camau i gryfhau'r cysylltiad rhwng Dyfodol (elusen sy'n arbenigo mewn rhoi triniaeth i bobl sy'n cam-drin sylweddau) a'r uned byw heb sylweddau (ISFL), sy'n ceisio gwella lefel y gofal a'r cymorth a gaiff carcharorion ar eu siwrnai adfer a chryfhau cyfraniad cymheiriaid at y gwaith pwysig hwn.
- Croesawodd y Bwrdd y camau i gyflwyno'r prosiect 'Here 2 Help' yn ystod y cyfnod adrodd. Prosiect peilot yw hwn sy'n defnyddio cymheiriaid i hyfforddi carcharorion i wella'u gwydnwch emosiynol. Ond roedd hi'n siom clywed na fydd y prosiect peilot yn cael ei ariannu ar ôl mis Mawrth 2025.
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod natur gadarnhaol, amrywiol ac arloesol y gwaith cymorth teuluol hollbwysig a wneir gan Invisible Walls, sy'n sefydliad nid-er-elw.

**Cynnydd ac ailsefydlu**

- Mae'r Bwrdd yn croesawu datblygiad gweithgareddau addysgol sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgu unigolion, gan gynnwys y rheini sy'n niwroamrywiol. Mae hefyd yn croesawu'r camau a ddatblygwyd i wella'r cyfleoedd gwaith i garcharorion ar ôl eu rhyddhau.
- Mae'r Bwrdd hefyd yn croesawu'r cynnydd yn nifer y staff yn yr uned rheoli troseddwyr (OMU). Mae'n golygu bod y capasiti bron yn llawn yn hynny o beth, ar ôl i danstaffio yn yr uned fod yn broblem am flynyddoedd lawer.
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cynllunio camau ailsefydlu yn broses gymhleth, a honno'n gofyn am gyfathrebu da a gwaith aml-asiantaeth cryf. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y pwysau ychwanegol sy'n cael ei greu gan gynlluniau rhyddhau'n gynnar. Serch hynny, rydyn ni'n dal i bryderu am ganfyddiadau ein harolygon ymhlith carcharorion, sy'n dangos problemau ym meysydd llety a gwaith a phroblemau o ran y cymorth ehangach a roddir cyn i garcharorion gael eu rhyddhau.

### 3.2 Y prif feysydd y mae angen eu datblygu

***I'R GWEINIDOG***

- Bydd y Gweinidog yn gwbl ymwybodol o'r problemau gorlenwi a geir drwy holl ystâd y carchardai. Mae'r Bwrdd yn awyddus i bwysleisio drachefn y pryderon hyn, ac yn benodol, y sefyllfa yng Ngharchar Caerdydd. Sut – a pha bryd – y mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon?

***I'R GWASANAETH CARCHARDAI***

- Er bod y Bwrdd yn croesawu'r rhaglen sy'n mynd rhagddi i adnewyddu celloedd, pa atebion y gellid eu canfod, neu pa fuddsoddiad y gellid ei wneud, i oresgyn y problemau parhaus gyda'r systemau gwresogi a dŵr?
- Gan gydnabod oedran y carchar, mae'r Bwrdd, drachefn, yn pwysleisio pa mor anaddas yw'r lleoliad ar gyfer carcharorion anabl a charcharorion sydd ag anawsterau symud. Mae'n tynnu sylw hefyd at y ffaith bod yr holl garcharorion yn gorfod bwyta yn eu celloedd, a bod toiledau yn y gofodau hynny.
- Gwael yw lefel y cydymffurfio â'r sesiynau gweithwyr allweddol sydd i fod

wedi'u trefnu, a bu gostyngiad o 63% yn y sesiynau a gynhaliwyd mewn gwirionedd ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Yn hynny o beth, a allai'r Gwasanaeth Carchardai roi diweddariad am y cynnydd a wnaed i newid y proffil staffio ac am ei lwyddiant wrth neilltuo mwy o amser i'r sesiynau gweithwyr allweddol a sicrhau mwy o barhad yn y rheini?

- Pa opsiynau eraill y mae'r Gwasanaeth Carchardai yn eu hystyried, o weld nifer y carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n dal i gael eu cadw yn y CSU?
- Mae'r Bwrdd yn siomedig iawn o glywed bod y cyllid ar gyfer prosiect peilot y cymheiriaid 'Here 2 Help' a'r hyfforddiant i wella gwydnwch emosiynol carcharorion yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. A oes modd ailystyried y penderfyniad hwn?
- Mae'r Bwrdd yn argymell bod y Gwasanaeth Carchardai yn gweithio gyda Charchar Caerdydd i edrych ar y cyfleoedd i hyrwyddo swyddi ac i recriwtio o'r cymunedau lleol cyfagos lle ceir lleiafrifoedd ethnig. Mae 19% o boblogaeth y carchar o gefndiroedd ethnig leiafrifol a byddai hynny'n fodd o adlewyrchu'r boblogaeth yn well.

***I'R BWRDD IECHYD***

- Mae'r Bwrdd yn disgwyl y bydd y dadansoddiad o anghenion iechyd, a ddylai fod wedi'i gynnal erbyn hyn, yn cael ei gynnal yn 2024-25.
- Mae'r Bwrdd yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu lefel y staff sy'n gweithio dros y penwythnos yn y tîm iechyd meddwl, yn sgil y galw sylweddol am gymorth iechyd meddwl yn y carchar.
- Mae'r Bwrdd drachefn yn awyddus i dynnu sylw at nifer uchel iawn y ceisiadau y mae'n ei gael am feddyginiaethau/presgripsiynau, ac mae'n argymell y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.
- Mae arfer newydd wedi'i gyflwyno, sef dim ond brysbennu'r unigolion hynny sy'n gofyn am gael gweld staff iechyd meddwl yn ystod y broses sgrinio iechyd meddwl yn y dderbynfa neu yn ystod yr ail broses sgrinio. Mae'r Bwrdd yn awgrymu y dylid parhau i adolygu'r arfer hwn i sicrhau nad yw carcharorion eraill yn cael eu hesgeuluso.

***I'R LLYWODRAETHWR***

- Mae'r Bwrdd yn credu y dylid adolygu, a gwella lle bo hynny'n bosibl, y broses a ddilynir i ddarparu ar gyfer anghenion deietegol penodol. Bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth bwyd yn 2025.

### 3.3 Yr ymateb i'r adroddiad diwethaf

| Y mater a godwyd | Yr ymateb a roddwyd | Y cynnydd |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **I'r Gweinidog**<br><br>O ystyried y materion sy'n gysylltiedig â strwythur a seilwaith Sioraidd y carchar, pa gamau a gymerir i wella amodau sylfaenol fel darparu dŵr poeth yn gyson a'r gallu i reoli amrywiadau tymheredd? | Adroddiad blynyddol Caerdydd 2022-23 – ymateb gweinidogion - Byrddau Monitro Annibynnol (imb.org.uk) | Mae'r broses o adnewyddu celloedd wedi parhau drwy gydol y cyfnod adrodd. Cafodd dwy gell sy'n atal defnyddio rhwymynnau eu creu (mae gwaith yn dal i'w wneud) a chafodd pedair arall eu hadnewyddu yn ystod y cyfnod adrodd; roedd disgwyl cwblhau dwy gell ym mis Medi 2024.<br><br>Daeth cyllid i law ar gyfer y prosiect i adnewyddu celloedd, y prosiect i adfer celloedd, y celloedd sy'n atal defnyddio rhwymynnau, y ganolfan ymwelwyr ac ystafell loceri'r staff benywaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwywyd cyllid hefyd yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer gwell systemau CCTV ac i greu adeilad newydd yn lle'r un seicoleg.<br>Mae'r camau cynllunio cynnar wrthi'n mynd rhagddyn nhw ar y darnau hyn o waith, wrth i adroddiadau ac arolygon paratoadol gael eu cynnal.<br><br>Parhaodd lefelau'r plâu llygod i fod yn broblem drwy ran fwyaf y cyfnod adrodd. Serch hynny, mae'n ymddangos bod pethau wedi gwella rhywfaint tuag at ddiwedd y cyfnod. |
| Mae'r oedi o ran cliriadau fetio wedi cael effaith fawr ar y gallu i recriwtio a phenodi staff, yn enwedig mewn gofal iechyd, OMU ac adsefydlu, yn ogystal ag asiantaethau cymorth sy'n gweithio yn y carchar.<br>Beth all y Llywodraeth ei wneud i gyflymu'r broses hon i sicrhau bod modd cyflawni a chynnal y cyflenwad staffio angenrheidiol tra nad yw diogelwch yn cael ei beryglu? | [Adroddiad blynyddol Caerdydd 2022-23 – ymateb gweinidogion - Byrddau Monitro Annibynnol (imb.org.uk)](imb.org.uk) | Mae uwch aelod o'r staff gofal iechyd bellach wedi'i hyfforddi ac yn gallu cynnal y broses fetio yn gyflymach o lawer. |

| | | |
|---|---|---|
| **I'r Gwasanaeth Carchardai**<br><br>Mae swyddi gwag parhaus mewn OMU ac adsefydlu ac mae'r pwysau sy'n deillio o hynny ar staff a charcharorion yn parhau i fod yn bryder. Pa ymdrechion y mae'r gwasanaeth carchardai/prawf yn eu gwneud i recriwtio ar gyfer y swyddi hyn?<br>Ers canoli trefniadau ymweliadau, mae'r gwasanaeth ffôn wedi bod yn gyson wael, gan achosi problemau parhaus i deuluoedd carcharorion. Pa gamau y gellid eu cymryd yn genedlaethol i ddatrys y materion hyn?<br><br>Gan werthfawrogi bod natur safle Carchar Caerdydd yn cyfrannu'n fawr at hyn, beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â'r ffaith nad oes gan garcharorion ofod y tu allan i'r gell i fwyta, sy'n golygu bod yn rhaid i ddau ddyn sy'n rhannu cell fwyta mewn gofod lle | Adroddiad blynyddol Caerdydd 2022-23 – ymateb gweinidogion - Byrddau Monitro Annibynnol (imb.org.uk) | Mae gan yr uned rheoli troseddwyr (OMU) staff llawn bron bob amser.<br><br>Mae'r Bwrdd yn glynu at ei farn yn yr adroddiad blaenorol am safon y gwasanaeth a ddarparwyd yn y cyfnod hwnnw, ac yn enwedig y gallu i gysylltu dros y ffôn mewn cyfnod rhesymol o amser. Mae Byrddau Monitro Eraill wedi cadarnhau bod hon yn broblem sy'n achosi pryder mewn carchardai eraill hefyd.<br><br>Dim newid. |

| | | |
|---|---|---|
| mae toiled hefyd? | | |
| Pa ystyriaeth y gellid ei rhoi i wella ymwybyddiaeth ac ymarfer swyddogion o ran anghenion carcharorion trawsryweddol wrth i'r boblogaeth drawsryweddol mewn carchardai ar draws yr ystâd dyfu? | | Mae Carchar Caerdydd wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i garcharorion trawsryweddol yn ystod y cyfnod adrodd. Barn y Bwrdd yw y bydd angen adolygu a diwygio'r polisi a'r arferion yn gyson wrth i'r boblogaeth drawsryweddol barhau i dyfu. |
| **I'r Bwrdd Iechyd**<br><br>Yn 2017 y cynhaliwyd y dadansoddiad diwethaf o anghenion iechyd yng Ngharchar Caerdydd yn 2017.<br>A fydd y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys? | [Adroddiad blynyddol Caerdydd 2022-23 – ymateb gweinidogion - Byrddau Monitro Annibynnol (imb.org.uk)](imb.org.uk) | Oherwydd nifer o ffactorau allanol, nid yw'r dadansoddiad o anghenion iechyd, a oedd i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2024, wedi dechrau eto. |

| | | |
|---|---|---|
| O ystyried y ceisiadau mynych a dderbynnir gan y Bwrdd ynghylch meddyginiaeth ar bresgripsiwn, a oes modd ystyried sut y gellir lleihau effaith newid neu derfynu meddyginiaeth arferol carcharorion, a sicrhau bod carcharorion yn cael eu cefnogi a'u hysbysu'n well drwy hyn? | | Er gwaethaf y diweddariad a roddwyd yn 2022-2023, mae'r ceisiadau i'r Bwrdd am feddyginiaethau / presgripsiynau wedi dyblu, bron iawn, yn 2023-2024. |
| **I'r Llywodraethwr**<br><br>Mae'n siomedig gweld bod eiddo coll rhwng ac o fewn carchardai yn parhau i fod yn broblem barhaus a sylweddol. Pa gamau ymarferol pellach y gellid eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn? | Dim ymateb wedi dod i law | Mae cynnydd nodedig wedi'i wneud wrth ymdrin ag eiddo pobl yng Ngharchar Caerdydd, ac felly mae llai o geisiadau wedi'u gwneud i'r Bwrdd am eiddo coll. |

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a chynefino

4.1.1 Mae'r dderbynfa yng Ngharchar Caerdydd yn aml i'w gweld yn brysur, ond ar y cyfan, mae'n cael ei rheoli'n dda. Sylwyd bod y staff yn amyneddgar ac yn gyfeillgar. Maen nhw'n rhoi tawelwch meddwl i garcharorion sydd heb fod yn y ddalfa o'r blaen, ac yn egluro'r broses iddyn nhw. Yn ystod wythnos gyntaf mis Medi 2023, cofnodwyd 176 o dderbyniadau, a 60 ohonyn nhw'n newydd. Yn ystod wythnos olaf mis Awst 2024, cofnodwyd 134 o dderbyniadau, a 68 ohonyn nhw'n newydd. Mae'r ffigurau hyn yn dangos lefel uchel y trosiant ym mhoblogaeth Carchar Caerdydd.

4.1.2 Ar adegau, mae nifer uchel y derbyniadau yn ei gwneud hi'n anodd cyrraedd y targed o dair awr ar gyfer symud carcharorion 'o'r bws i'r gwely'. Mae hyn yn enwedig pan fydd carcharorion o'r tu allan i'r dalgylch arferol yn cael eu derbyn yng Nghaerdydd. Mae'r targed hwn yn datgan mai dim ond tair awr ddylai fod rhwng pan fydd carcharor yn cael ei dderbyn wrth y giât ac yn cael ei roi yn ei gell. Ar sawl achlysur yn ystod y cyfnod adrodd, roedd yr ardal dderbyn yn dal ar agor am hanner nos. **Mae'r Bwrdd yn arbennig o bryderus am garcharorion o'r tu allan i'r ardal sydd wedi bod yn y llys am y rhan fwyaf o'r dydd ac sy'n cael eu cludo wedyn i Gaerdydd, yn aml gan gyrraedd ar ôl 7.30pm. Dim ond wedyn y bydd y broses dderbyn yn dechrau**. Nid yn unig y mae'r broblem hon yn effeithio ar garcharorion. Mae'n effeithio hefyd ar staff meddygol sy'n ceisio gwneud asesiad ystyrlon, yn ogystal ag ar gymheiriaid yn yr ardal dderbyn ac ar yr adain gynefino.

4.1.3 Mae'r Bwrdd wedi clywed bod gan yr adran dderbyn system wrth gefn ar gyfer derbyn â llaw, ochr yn ochr â'r system fiometrig gyfrifiadurol. Cyflwynwyd y system hon ar ôl i'r system gyfrifiadurol dorri am wythnos gyfan ym mis Chwefror 2024. Mae hynny yn sicrhau bod modd derbyn carcharorion mewn ffordd mor effeithlon â phosibl. Mae'r system wrth gefn yn dal ar gael pe bai'r dechnoleg yn methu eto.

4.1.4 Bydd carcharorion yn aros ar adain C tan y byddan nhw wedi cwblhau eu cyfnod cynefino. Byddan nhw wedyn yn cael eu trosglwyddo i un o'r prif adeiniau. Cymheiriaid sydd wedi arwain y prosesau cynefino ar y diwrnod cyntaf, yn ôl yr hyn a welodd y Bwrdd, gyda chymorth swyddogion. Mae hyn yn fodd o drosglwyddo gwybodaeth mewn ffordd hygyrch, ac mewn ffordd y bydd pobl yn gallu uniaethu â hi, rhwng cymheiriaid a charcharorion newydd. Bydd y tîm gofal iechyd, tîm y gaplaniaeth, Dyfodol a'r tîm ailsefydlu yn cynnal asesiadau dilynol.

4.1.5 Rhwng 1 Mai 2024 a 31 Gorffennaf 2024, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad thematig o'r broses asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), gan edrych ar sut y rheolir achosion carcharorion sydd â risg o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Gwelwyd, yn ddealladwy, bod y nifer uchaf o'r prosesau hyn wedi'u cychwyn yn y dderbynfa neu ar yr adain gynefino.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Yn anffodus, cafwyd un farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'n ymddangos mai'r carcharor ei hun a achosodd ei farwolaeth; mae'r cwest eto i ddod. Roedd y cymorth a gynigiwyd i'r teulu wedi gwneud argraff ar y Bwrdd, gan gynnwys trefnu i gludo'r teulu gannoedd o filltiroedd o ddrws i ddrws i sicrhau

eu bod yn gallu ymweld â'u perthynas yn yr ysbyty. Mae unrhyw farwolaeth yn y ddalfa yn achos edifeirwch i'r Bwrdd, ond mae'n nodi'r gostyngiad yn y marwolaethau a gofnodwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn cydnabod ymdrechion y carchar yn hyn o beth.

4.2.2 Nododd y Bwrdd hefyd ganfyddiadau tri o ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO) i farwolaethau yn y ddalfa yng Ngharchar Caerdydd. Er i'r rhain ddigwydd rai blynyddoedd yn ôl, yn ystod y cyfnod adrodd hwn y cyhoeddwyd y canfyddiadau. Yn nau o'r adroddiadau, canfuwyd nad oedd y gofal iechyd a roddwyd o'r un safon â'r hyn a geid yn y gymuned, a gwnaed argymhellion i'r partïon perthnasol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

4.2.3 Cofnodwyd 595 achos o hunan-niweidio yn y flwyddyn adrodd, a'r rheini wedi'u cyflawni gan 330 o unigolion – **dyma gynnydd sylweddol ar y 374 o achosion a welwyd y flwyddyn flaenorol.** Er i HMIP, yn ei arolwg yn 2024, ddweud bod hunan-niweidio yn is na'r cyfartaledd o gymharu Carchar Caerdydd â charchardai tebyg, **mae'r Bwrdd yn dal i bryderu am y cynnydd.** Yn ystod y cyfnod adrodd, cychwynnwyd 629 o achosion ACCT. Yn adolygiad thematig y Bwrdd o achosion ACCT, ceisiwyd canfod a oedd y staff yn dilyn y broses mewn ffordd briodol a chyson, ac ystyriwyd bod arweinyddiaeth gref gan y rheolwr carcharu mwy diogel yn bwysig yn hyn o beth.

## 4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

4.3.1 Yn y cyfnod adrodd, cynyddodd nifer yr achosion o drais a gofnodwyd, o 180 i 283: cofnodwyd 135 fel ymosodiadau gan garcharorion ar garcharorion; 112 fel ymladdfeydd rhwng carcharorion; ac roedd 36 yn ymosodiadau ar staff. Mae aelodau'r Bwrdd wedi bod yn dyst i nifer o'r digwyddiadau hyn, a nodwyd bod y staff wedi delio â nhw mewn ffordd bwyllog a phroffesiynol.

4.3.2 Ymchwiliodd y tîm carcharu mwy diogel i bob digwyddiad, ac os oedd angen, cyfeiriwyd yr achosion at dîm y cynlluniau herio, cymorth ac ymyrryd (CSIP).

4.3.3 Prin oedd yr achosion o hunanynysu yn ystod y flwyddyn adrodd.

## 4.4 Carcharorion agored i niwed, diogelu

4.4.1 Byddai carcharorion y pennwyd eu bod yn agored i niwed yn cael eu rhoi ar adain B1. Mae hon yn adain lai o faint, lle bydd carcharorion yn cael addysg neu waith ar yr adain, ynghyd â gwaith yn yr ardd ac amser yn y gampfa.

## 4.5 Defnyddio grym

4.5.1 Cofnodwyd 852 digwyddiad lle defnyddiwyd grym yn ystod y flwyddyn dan sylw, yn amrywio o reolaeth ac ymatal llawn i ddefnyddio ychydig iawn yn unig o rym. O blith y rhain, roedd tua 33% wedi defnyddio gafaelion tywys yn unig. Ni fu unrhyw achosion lle defnyddiodd swyddogion chwistrell analluogi Pava yn ystod y cyfnod dan sylw, er iddo gael ei estyn ar un achlysur. Estynnwyd pastynau ar bump achlysur, ond dim ond dwywaith y cawson nhw'u defnyddio.

4.5.2 **Mae'r Bwrdd yn falch o weld bod y defnydd o gamerâu corff (BWVCs) yn ystod digwyddiadau wedi cynyddu o tua 66.7% ym mis Awst 2023 i 80%.** Serch hynny, mae'r Bwrdd o'r farn y byddai eu defnyddio'n gynharach yn rhoi darlun llawnach o'r hyn sy'n arwain at ddigwyddiad, ac mae hyn wedi'i nodi yn y

cyfarfodydd adolygu grym wythnosol.

## 4.6 Atal eitemau anghyfreithlon

4.6.1 Mae'r broblem lle bydd carcharorion yn cael eu canfod o dan ddylanwad sylweddau, a sylweddau seicotig yn bennaf, wedi parhau. Serch hynny, gwelodd grŵp strategaeth cyffuriau'r carchar fod nifer y cyffuriau a ganfuwyd yn ystod y flwyddyn adrodd wedi amrywio. Y ffigur uchaf oedd 64, ym mis Gorffennaf 2024, tra mai 11 oedd y ffigur isaf, ym mis Awst 2024. Bu cynnydd yn nifer y chwiliadau a wnaed, o ran chwilio staff, ymwelwyr a chelloedd. Roedd y rhain yn chwiliadau wedi'u targedu ac yn rhai cyffredinol, gan gynnwys chwiliadau dros nos. Tîm chwilio penodedig sy'n gwneud hyn, weithiau gyda chymorth tîm chwilio rhanbarth y de. Mae'r Bwrdd wedi gweld nifer o'r chwiliadau hyn yn cael eu cynnal.

4.6.2 Mewn sampl o'r sganiau cyrff a gynhaliwyd ym misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2024, gwelwyd bod y rhain yn bositif mewn 3%, 2%, 1% a 0.7% o achosion, yn y drefn honno. Yn galonogol, mae'n awgrymu bod gostyngiad yn nifer y carcharorion sy'n ceisio dod â sylweddau anghyfreithlon i mewn. O blith y rhain, roedd 21 o'r 44 achos yn ymwneud â derbyniadau newydd.

4.6.3 Bu'r Bwrdd yn arsylwi dyfarniadau'n gyson (gwrandawiadau disgyblu a gynhelir gan Lywodraethwr carchar os amheuir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar yw dyfarniadau). Roedd hyn yn cynnwys arsylwi dyfarniadau a gynhaliwyd gerbron dyfarnwr annibynnol. Gwelson ni fod y broses briodol yn cael ei dilyn, gyda'r carcharorion yn cael cymorth i'w helpu i ddeall y broses ac ymwneud â hi.

4.6.4 O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, dyblodd nifer y dyfarniadau; cafwyd 3,165 ohonyn nhw, sy'n gynnydd o 55%. Cafodd 2,548 eu cwblhau, gyda 1,311 (51%) wedi'u profi. Ni fwriwyd ymlaen â 417 achos, ac ni phroseswyd 203 yn rhagor, gan fod y carcharorion dan sylw wedi cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. O'r 77 achos a gyfeiriwyd at y dyfarnwr annibynnol (sy'n Farnwr Rhanbarth), profwyd 50 ohonyn nhw, gan arwain at ychwanegu 693 o ddiwrnodau at ddedfrydau. Gellid priodoli'r cynnydd o 55% yn y cyfnod adrodd i gynnydd yn y strategaethau rhagweithiol i leihau'r cyflenwad a'r galw am sylweddau anghyfreithlon, ac i'r cynnydd ym mhoblogaeth y carchar yn ystod ail hanner 2023.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon, mae maint poblogaeth Carchar Caerdydd wedi rhoi'r carchar o dan bwysau. Mae'r pwysau hwn yn rhywbeth sy'n cael ei weld drwy'r wlad. Mae wedi arwain at sefyllfa lle cyrhaeddodd Carchar Caerdydd ei gapasiti gweithredol, neu lle bu'n agos iawn at ei gyrraedd, am ran helaeth o'r flwyddyn. Mae celloedd llawn wedi golygu bod hyn wedi effeithio ar y broses o adnewyddu celloedd, ac ni chafwyd rhaglen baentio reolaidd. Wrth i ofod ddod ar gael, mae hyn yn cael sylw. Serch hyn i gyd, mae rhywfaint o waith da wedi bod yn cael ei wneud.

5.1.2 Mae'r prosiect i adfer celloedd wedi arwain at adnewyddu adeiniau C ac A, gan gynnwys cwblhau 13 cell ar A2 ac wyth ar A4, a chytuno ar gyllid i gwblhau A3 ac A4. Adnewyddwyd dwy ystafell gawodydd ar adain D, yn ogystal â sawl cell ar adain C. Cafodd ystafell gynefino adain C ei hadnewyddu a dywedodd HMIP, yn dilyn ei harolwg diweddar, mai dyma'r ystafell gynefino fwyaf croesawgar a chyfforddus iddi'i gweld ers tro byd. Ar adain E, mae lloriau newydd wedi'u gosod yn 76 o'r 96 cell. Mae cais i wneud gwaith ar y gweddill wedi'i gyflwyno.

5.1.3 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar adeiniau B ac F, a fydd yn gymorth i atal gorlenwi, ac yn fodd hefyd o agor ystafelloedd argyfwng difrifol ar landin gynefino C4. Cytunwyd eisoes ar y cynlluniau a'r cyllid ar gyfer hynny. Mae'r celloedd sy'n atal defnyddio rhwymynnau wedi'u hadnewyddu'n llwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, ac maen nhw'n cynnwys dodrefn carchar arloesol, mwy diogel. Bwriedir gwneud rhagor o waith ar y celloedd hyn yn adeiniau C a D.

5.1.4 **Mae'r Bwrdd, unwaith eto, yn awyddus i dynnu sylw at y problemau parhaus gyda'r systemau gwresogi a dŵr yn y carchar.** Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed cwynion bod y tymheredd ar rai adeiniau'n rhy boeth neu'n rhy oer, yn dibynnu ar y tymheredd y tu allan. Weithiau, nid oedd dŵr poeth ar gael. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod oedran y carchar yn ei gwneud hi'n anodd rheoli rhai o'r problemau hyn. **Unwaith eto, mae'r Bwrdd yn nodi nad yw'n dderbyniol nad oes gan garcharorion le y tu allan i'r gell i fwyta.** Yn hytrach, maen nhw'n bwyta mewn celloedd y maen nhw'n eu rhannu, gyda thoiled y maen nhw'n ei rannu yn y gofod hwnnw hefyd.

5.1.5 Am gyfnodau estynedig o amser, bu llygod yn broblem fawr yn y carchar. Cynyddwyd ymweliadau'r difäwr o ganlyniad i hyn, ond cymerodd fisoedd i leihau nifer yr achosion. Roedd presenoldeb fermin yn y gegin yn achos pryder penodol. Llwyddwyd i reoli hynny ar ôl wythnosau lawer. Er iddi gymryd cryn amser i fynd i'r afael â'r broblem hon yn llwyddiannus, roedd y Bwrdd yn falch o weld bod pethau wedi gwella yn dilyn y camau a gymerwyd.

5.1.6 Cyflwynwyd system olchi newydd ym mis Mehefin 2024, i geisio cadw golch pob adain ar wahân. Gwnaed rhai cwynion am ddiffyg tywelion, dillad a dillad gwely, ond nodwyd bod rhai carcharorion yn casglu eitemau a bod hynny'n achosi prinder weithiau. Arweiniodd hyn at chwilio celloedd er mwyn hawlio'r eitemau yn ôl. Gwelwyd hefyd fod dillad, platiau ac eitemau eraill a oedd yn eiddo i'r carchar, a'r rheini mewn cyflwr da, wedi'u gwaredu yn yr adran ailgylchu. Yn ffodus, mae'r gweithwyr yno wedi achub y rhain.

5.1.7 Bydd Carchar Caerdydd yn gweini dros hanner miliwn o brydau bwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd problemau'n codi'n achlysurol. Cafodd y Bwrdd 11 o

geisiadau i gyd yn ymwneud â bwyd, a hynny'n gynnydd o saith y flwyddyn flaenorol. Gan hynny, roedd y modd y gweinid bwyd yn nodwedd bwysig yn y gwaith monitro wythnosol, ac ar adegau, gwelwyd bod y carcharorion yn cael dognau da a bwyd ac iddo flas da.

5.1.8 Yn y gegin, newidiwyd y system archebu o system gyfrifiadurol i system bapur dros dro. Roedd hyn ar ôl i'r contract TG ar gyfer y system archebu ddod i ben. Penderfynwyd aros i gyflwyno'r system Launchpad yn nechrau 2025. Gwasanaeth digidol yn y celloedd fydd hwn, a bydd modd i garcharorion ei ddefnyddio i ddewis eu prydau ar-lein. Ar adegau, byddai'r bwyd yn y lle gweini wedi dod i ben, neu ni fyddai dewis carcharor ar gael oherwydd camgymeriad. Ond ar y cyfan, byddai modd canfod atebion i'r problemau hyn. Problem a ddaeth i'r amlwg tua diwedd y cyfnod adrodd oedd y ddarpariaeth ar gyfer deietau arbenigol, e.e. bwyd heb glwten. Mae'n ymddangos mai problem gyfathrebu oedd hon rhwng adeiniau, y ganolfan gofal iechyd a'r ceginau. **Mae'r Bwrdd yn teimlo y dylid adolygu'r broses hon a'i gwella lle mae hynny'n bosib; bydd adolygiad thematig o'r ddarpariaeth bwyd yn cael ei gynnal yn 2025.**

## 5.2 Cadw ar wahân

5.2.1 Dros y flwyddyn, mae'r achosion o gadw ar wahân wedi bod yn rhai cyfnod byr, ac eithrio achos un carcharor a arhosodd am 41 diwrnod o dan Reol 45. Cafodd carcharorion eu cadw ar wahân yn yr uned gofal a gwahanu (CSU) o ganlyniad i dorri'r rheolau ar gyfer trefn dda, methu sganiau corff, neu ddyfarniadau. Gan amlaf, bydd aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod am drosglwyddo carcharorion i'r CSU gan ddefnyddio grym (UoF). Mae wyth cell yn y CSU, gan gynnwys tair cell gamera, cell sy'n atal defnyddio rhwymynnau, cell letya arbennig (sydd heb eitemau fel dodrefn, dillad gwely a nwyddau hylendid am resymau diogelwch), a cell 'protest fudr'. Yn gyffredinol, mae staff y CSU wedi bod yn barod eu cymwynas ac yn wybodus, ac wedi'u gweld yn ymwneud yn dda â charcharorion, gan gynnwys y rheini sy'n cyrraedd dan ymddwyn yn heriol.

5.2.2 Bydd y Llywodraethwyr, tîm y gaplaniaeth a staff y ganolfan gofal iechyd yn ymweld yn ddyddiol. Bydd meddyg teulu hefyd yn ymweld dair gwaith yr wythnos. Bydd aelodau'r Bwrdd yn ymweld â'r CSU yn gyson wrth fonitro'r carchar; byddan nhw'n sgwrsio â'r carcharorion i geisio delio ag unrhyw broblemau sy'n cael eu crybwyll. O ganlyniad, prin iawn yw'r ceisiadau a ddaw i law gan garcharorion y CSU. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael adroddiadau gweithredol dyddiol y carchar, a'r rheini'n enwi'r carcharorion sydd wedi'u symud i'r CSU. Bydd yr adroddiadau hefyd yn sôn am unrhyw broblemau eraill. Pan fydd hynny'n bosibl, bydd aelod yn goruchwylio cyfarfodydd y grŵp monitro ac adolygu ar gyfer cadw ar wahân (SMARG). Cafodd y Bwrdd un cais (neges ysgrifenedig gan garcharor) yn ystod y cyfnod adrodd, a hwnnw'n ymwneud â defnyddio grym pan oedd carcharor yn cael ei symud i'r CSU. Trafodwyd y cais hwn wedyn yn y cyfarfod am ddefnyddio grym. At hynny, bydd pob carcharor sy'n cael ei gadw ar wahân am saith niwrnod neu ragor yn cael ei drafod yn y cyfarfod aml-asiantaeth am ymyriadau diogelwch (SIM).

5.2.3 Yn ystod y flwyddyn, cychwynnwyd 16 proses ACCT gan staff y CSU, tra roedd gan 36 o garcharorion eisoes brosesau ACCT yn agored cyn cyrraedd y CSU. Byddai aelodau'r Bwrdd yn monitro'r prosesau ACCT a oedd yn gysylltiedig â chadw carcharorion ar wahân, a gwelwyd bod y cofnodion dyddiol, yr arsylwadau a'r adolygiadau i gyd yn cael eu gwneud yn brydlon.

5.2.4 Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu 396 o garcharorion yn y CSU, gyda 24%

ohonyn nhw o grwpiau ethnig leiafrifol. Mae tuedd i boblogaeth ethnig leiafrifol Carchar Caerdydd aros yn sefydlog ar tua 18-19%. Serch hynny, nid yw hyn yn ystyried ad-droseddwyr na'r carcharor y cyfeiriwyd ato a arhosodd am gyfnod hir o 41 diwrnod, a gallai hynny greu darlun anghymesur o bethau. **Mae'r Bwrdd yn argymell y dylid gwella'r broses o gasglu data er mwyn canfod ad-droseddwyr, ac er mwyn peidio â chreu darlun a allai fod yn anghymesur.**

5.2.5 Cofnodwyd bod 25% o'r carcharorion a gafodd eu cadw ar wahân yn oedolion ifanc (18-25 oed), er mai 18% o holl garcharorion y carchar oedd yn oedolion ifanc. Gallai'r ffigur hwn hefyd fod yn anghymesur gan nad yw'r cofnodion, unwaith eto, yn ystyried ad-droseddwyr. Tua diwedd y cyfnod adrodd, sylwodd y Bwrdd ar gynnydd yn nifer yr oedolion ifanc yn y CSU, a thynnwyd sylw at hyn yng nghyfarfod diwethaf SMARG. **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r gwaith aml-asiantaeth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer yr oedolion ifanc sy'n cael eu cadw ar wahân.**

5.2.6 Yn gyffredinol, nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon sylweddol am arferion Carchar Caerdydd wrth gadw carcharorion ar wahân.

### 5.3 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

5.3.1 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd wedi gweld bod yr awyrgylch yn dda ar y rhan fwyaf o'r adeiniau pan fydd carcharorion a swyddogion yn ymwneud â'i gilydd. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y staff yn barod i helpu ac yn gefnogol. Serch hynny, mae pryderon gan garcharorion am y staff wedi dod i law, a dyma bellach yr ail reswm mwyaf cyffredin dros wneud cais i'r Bwrdd. Cynyddodd y ffigur o 36 i 45 eleni yn hynny o beth. Ymhlith y materion a godwyd roedd cam-drin corfforol honedig, cam-drin llafar, a methiant i ymateb i bryderon carcharorion.

5.3.2 Bu diffyg parhad yn sesiynau'r gweithwyr allweddol am ran helaeth o'r flwyddyn. Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad HMIP hefyd, a ddywedodd nad oedd y cynllun gweithwyr allweddol yn gweithredu'n effeithiol, ac nad oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael sesiynau rheolaidd â swyddog enwebedig. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd cyfanswm o 4,317 o sesiynau gwaith allweddol, o'i gymharu â 6,802 yn y flwyddyn adrodd flaenorol. Roedd 38,953 o sesiynau â gweithwyr allweddol i fod wedi'u trefnu, sy'n golygu mai 11.08% oedd y gyfradd gydymffurfio. Cymhareb y carcharorion i bob gweithiwr allweddol yw 6:1.

5.3.3 Gall nifer o bethau effeithio ar y gallu i ddarparu'r cynllun gweithwyr allweddol, gan gynnwys newid y gyfundrefn, absenoldeb staff, a galwadau eraill. Mae'r Bwrdd yn falch o glywed bod yr uwch dîm rheoli wedi bod yn gweithio gyda'r undebau llafur i gyflwyno proffil staffio diwygiedig. Dylai hyn olygu bod modd neilltuo amser yn well a sicrhau mwy o barhad – sy'n angenrheidiol i'r sesiynau gweithwyr allweddol lwyddo.

5.3.4 Mae cyfarfodydd fforwm wythnosol y carcharorion â'r Llywodraethwr a'r swyddogion eraill yn boblogaidd, ac mae'r staff yn rhoi blaenoriaeth i'r cyfarfodydd hyn. Bydd y carcharorion yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at ddatrys y problemau a godir. Bydd aelodau'r Bwrdd yn monitro'r fforwm pan fydd hynny'n bosibl, ac maen nhw'n ystyried hyn yn arwydd gweledol o'r berthynas gadarnhaol a geir rhwng y carcharorion a'r uwch staff.

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Cafodd y Bwrdd chwech o geisiadau'n gysylltiedig â 'chydraddoldeb' yn

ystod y flwyddyn, a’r rheini’n ymwneud â materion fel sylwadau hiliol honedig gan y staff, diffyg cynhyrchion ar gyfer carcharorion thrawsryweddol, ac un achos lle roedd carcharor a oedd yn wladolyn tramor yn teimlo’n rhy ofnus i sôn am broblemau.

5.4.2 Mae cymheiriaid sy’n gyfrifol am gydraddoldeb ar gael ar bob adain i helpu a chynghori carcharorion eraill. Bydd gan bob fforwm carcharorion eitem am amrywiaeth a chynhwysiant ar yr agenda, lle gellir uwchgyfeirio a datrys unrhyw faterion yn gyflym. Er bod llawer o’r wybodaeth a roddir i garcharorion yn Saesneg, mae deunyddiau mewn ieithoedd eraill ar gael i ryw raddau. Ceir hefyd wasanaeth cyfieithu ar y pryd 24 awr dros y ffôn sydd ar gael i swyddogion ei ddefnyddio. Mae fforymau sy’n trafod nodweddion gwarchodedig penodol (gan gynnwys hil, crefydd, rhywedd, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol) yn cael eu cynnal yn gyson. Mae hi’n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn y nodweddion hyn. Yn gyffredinol, bydd presenoldeb da yn y fforymau:

- Carcharorion sy’n oedolion ifanc (18-25 oed)
- Carcharorion dros 50 oed
- Carcharorion anabl
- Carcharorion LHDTC+
- Carcharorion trawsryweddol (gan gynnwys rhywedd yn fwy cyffredinol lle bo hynny’n berthnasol)
- Carcharorion o leiafrifoedd ethnig
- Carcharorion Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Carcharorion sy'n wladolion tramor
- Carcharorion â phrofiad o ofal
- Carcharorion sy’n siarad Cymraeg
- Carcharorion sy’n cael problemau’n ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth neu briodas a phartneriaeth sifil

5.4.3 Yn ystod y flwyddyn adrodd, un o flaenoriaethau’r carchar fu gwella gwasanaethau i garcharorion trawsryweddol. Ar ôl cyrraedd y carchar, bydd yr holl garcharorion trawsryweddol yn cael eu gweld gan y swyddog cydraddoldeb ac, o fewn 14 diwrnod, gan lywodraethwr. Mae’r Bwrdd wedi cael sawl cais yn ystod y flwyddyn am ddiffyg cynhyrchion addas, fel colur a dillad. Ar ôl cael sylwadau gan nifer o garcharorion trawsryweddol, mae mwy o eitemau addas bellach ar gael drwy’r cantîn, gan gynnwys mwy o golur, cynhyrchion gwallt a dillad. Yn dilyn ei harolwg diweddar, disgrifiodd HMIP y polisi trawsryweddol fel un da iawn, ac mae hwnnw’n cael ei ddiwygio i gynnwys yr eitemau y gall carcharorion trawsryweddol eu prynu erbyn hyn. Mae pecynnau hylendid benywaidd ar gael o’r ddesg yn y dderbynfa.

5.4.4 Mae’r sefydliad yn dal hyd at 779 o garcharorion, ac mae tua 19% ohonyn nhw o gefndir du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Mae’r sefyllfa hon yn weddol ddigyfnewid. Bydd unrhyw adroddiadau am ymddygiad ac iddo gymhellion hiliol yn cael sylw drwy broses y ffurflen i roi gwybod am ddigwyddiad gwahaniaethu (DIRF). Mae gwybodaeth am y broses hon ar gael ar yr adeiniau. Ceir cynrychiolwyr gwladolion tramor ar bob adain ac maen nhw’n cael eu cefnogi gan arweinydd gwladolion tramor. Mae Carchar Caerdydd yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek sy’n craffu’n annibynnol ar ffurflenni DIRF ac yn ymwneud â charcharorion o leiafrifoedd ethnig yn y sefydliad.

5.4.5 Bydd y rhwydwaith anabledd, eiriolaeth a lles (DAWN) yn goruchwylio

materion sy’n ymwneud ag anabledd, a chynhelir cyfarfodydd y fforwm bob deufis i staff a charcharorion. Bydd y polisi anabledd yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru’n rheolaidd wrth i waith gael ei wneud i newid adeiladau’r sefydliad. **Fel y mae’n gwneud yn ei adroddiad bob blwyddyn, mae’r Bwrdd yn awyddus i fynegi pryder nad yw Carchar Caerdydd yn addas i garcharorion sydd ag anableddau neu anawsterau symud.**

5.4.6 Carcharorion sy’n oedolion yw mwyafrif poblogaeth y carchar (82%), ac oedolion ifanc (18-25 oed) yw 18%. Mae’r ffigur hwn yn weddol debyg i’r ffigur yn y blynyddoedd blaenorol.

5.4.7 Ceir tîm niwroamrywiaeth, a gall carcharorion gyfeirio’u hunain at y ddarpariaeth, neu gall y staff eu cyfeirio i gael asesiad. Bu aelodau’r Bwrdd yn ymweld â’r grwpiau’n rheolaidd, ac maen nhw wedi cael adborth cadarnhaol gan bawb sy’n rhan ohonyn nhw.

5.4.8 Mae data’n cael eu casglu am gydraddoldeb mewn perthynas â’r staff, a’r gobaith yw y bydd hyn yn gwella ansawdd y wybodaeth a gaiff ei chasglu. Bu mymryn o gynnydd yng nghyfran y staff o grwpiau ethnig leiafrifol ar ddechrau’r cyfnod adrodd, o 3.52% ym mis Medi 2023 i 3.95% ar ddiwedd y flwyddyn adrodd ym mis Awst 2024. Mae hyn yn sylweddol is na’r gyfran a fyddai’n gynrychioladol o’r gymuned gyfagos, sef 20.8%, yn ôl Cyfrifiad 2021. Ar y llaw arall, roedd 10.7% o staff Carchar Caerdydd yn arddel hunaniaeth LHDTC+ ym mis Awst 2024 (gwahaniaeth o 2.4% ers ffigur mis Medi 2023, sef 8.3%). Ym mhoblogaeth Caerdydd, y ffigur oedd 5.3%. **Mae’r Bwrdd yn argymell bod y Gwasanaeth Carchardai yn gweithio gyda Charchar Caerdydd i edrych ar y cyfleoedd i hyrwyddo swyddi a recriwtio o’r cymunedau lleol cyfagos lle ceir lleiafrifoedd ethnig, a hynny i adlewyrchu un rhan o bump o boblogaeth y carchar yn well**.

## 5.5 Ffydd a chymorth bugeiliol

5.5.1 Mae gan gaplaniaeth y carchar dîm amser llawn sy’n cynrychioli sawl ffydd, sef Mwslemiaeth, Protestaniaeth, Catholigiaeth, Siciaeth, Iddewiaeth, Bwdhaeth, Dyneiddiaeth a Phaganiaeth.

## 5.6 Cwynion

5.6.1 Cyfanswm nifer y cwynion mewnol a ddaeth i law’r carchar yn y flwyddyn adrodd rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024 (ac eithrio’r rheini’n ymwneud â gofal iechyd a DIRFs) oedd 1,472, o’i gymharu â 1,366 rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2023. Dyna gynnydd o 7.76%. Roedd y rhan fwyaf o’r cwynion yn ymwneud â’r canlynol: materion staff (173); meddyginiaeth (114); y cynllun cymhellion (93), ac eiddo (85). Ymatebwyd i gyfanswm o 87% o’r cwynion o fewn yr amserlenni a ragnodwyd, sy’n welliant ar y cyfnod adrodd blaenorol.

*(Sylwer: Mae’n ymddangos bod y ffigurau am gwynion a geir yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn 2022-2023 yn anghywir, h.y. dywedwyd mai cyfanswm nifer y cwynion mewnol a ddaeth i law’r carchar yn y flwyddyn adrodd – ac eithrio’r rheini a oedd yn ymwneud â gofal iechyd a DIRFs – oedd 1,730. Eleni, dywedwyd mai 1,366 oedd y ffigur hwnnw).*

## 5.7 Eiddo

5.7.1 Mae cwynion am golli eiddo carcharorion, a’r modd yr ymdrinnir â hynny wedyn, wedi gostwng yn sylweddol o’i gymharu â’r cyfnod adrodd blaenorol. Rhwng 1 Medi 2023 a 31 Awst 2024, cafodd y Bwrdd 22 o geisiadau (60 yn 2022-2023),

gyda saith o’r rheini’n ymwneud â cholli eiddo wrth drosglwyddo rhwng carchardai (35 yn 2022-2023) a 15 yn gysylltiedig â symud celloedd yng Ngharchar Caerdydd (25 yn 2022-2023).

5.7.2 Mae’r carchar yn dweud bod y llwyddiant hwn yn sgil gwaith gan y dderbynfa i wella’r prosesau ‘tracio ac olrhain’ pan fydd carcharorion sydd wedi’u trosglwyddo’n colli eiddo. O ran y rheini sy’n gysylltiedig â symud rhwng dwy adain, mae’n debygol fod hyn hefyd yn sgil cofnodi eiddo’n fanylach ar yr F75 pan fydd carcharor yn symud o fewn y sefydliad. **Mae’r Bwrdd yn cydnabod y gwelliant nodedig wrth drin a chofnodi eiddo, yn enwedig ac ystyried y perfformiad gwael iawn drwy’r ystâd ehangach a arweiniodd at adolygiad thematig cenedlaethol gan y Byrddau Monitro Annibynnol yn 2023-2024. Dylid cynnal y gwelliant cynyddol hwn drwy lynu at y polisi drwy’r holl garchar, yn ogystal â thrwy arweinyddiaeth gan uwch staff penodol.**

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

6.1.1 Cyfanswm y ceisiadau i'r Bwrdd a oedd yn ymwneud â gofal iechyd oedd 97, gyda 54 yn canolbwyntio ar feddyginiaeth/presgripsiynau. Roedd hyn yn gynnydd nodedig ers cyfnod adrodd 2022-2023, pan gafodd y Bwrdd 62 o geisiadau'n ymwneud â gofal iechyd, a thua 28 o'r rheini'n ymwneud â meddyginiaeth/presgripsiynau. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y cynnydd hwn, yn rhannol, oherwydd y swyddi meddygon teulu a fu'n wag yn ystod y cyfnod hwn, a'r diffyg penodiadau dilynol. Ar ôl sgrinio carcharorion yn y dderbynfa, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y tîm nyrsio bellach yn anfon tasg at y meddyg teulu i adolygu'r feddyginiaeth. At hynny, mae pob meddyg teulu, a mwyafrif y tîm nyrsio, yn gallu defnyddio porth clinigol Cymru i gael y feddyginiaeth angenrheidiol. **Serch hynny, mae nifer y ceisiadau am feddyginiaethau/presgripsiynau yn dal yn uchel iawn, ac mae'r Bwrdd yn argymell y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i sut y gellid mynd i'r afael â hyn.**

6.1.2 Yn gyffredinol, arhosodd y sefyllfa staffio yn y tîm gofal iechyd yn sefydlog. Serch hynny, bu gan y tîm nyrsio naw a hanner o swyddi gwag yn ystod y cyfnod adrodd. Lliniarwyd ar hyn drwy barhau i ddefnyddio dull tîm cyfan, gyda chyfuniad o sgiliau, i roi gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf. Cynhaliwyd cyfarfodydd sicrwydd rheolaidd â'r Llywodraethwr a chyfarwyddwr nyrsio'r bwrdd iechyd.

6.1.3 Mae'r Bwrdd yn arbennig o falch o gydnabod y gwelliant sylweddol yn yr amser y mae cliriadau fetio yn ei gymryd, a bod hyn wedi deillio'n uniongyrchol o alluogi rheolwr gweithredol y tîm gofal iechyd i gyflawni'r broses fetio. **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r ffaith mai dim ond 4-5 wythnos, ar gyfartaledd, y mae'r cliriadau fetio yn ei gymryd bellach.**

6.1.4 **Mae'r Bwrdd yn siomedig o nodi nad yw'r dadansoddiad o anghenion iechyd wedi'i gynnal eto.** Rydyn ni'n deall bod y gwaith o gwmpasu'r dadansoddiad wedi dechrau, a bod unigolyn wedi'i enwi i arwain ar hyn, gyda disgwyl cwblhau'r broses tua mis Ebrill 2025.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

6.2.1 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r gostyngiad yn yr amseroedd aros i weld meddyg teulu. Mae'r achosion o beidio â mynd i apwyntiadau, fodd bynnag, wedi cynyddu o 11% i 20% eleni. Mae'r ymdrechion i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys rhoi hysbysiadau ar 'Time out TV' i dynnu sylw at nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu methu. Mae llythyrau apwyntiadau'n cael eu hargraffu bob dydd Iau ar gyfer yr wythnos ganlynol, ac yn cael eu rhoi i gymheiriaid yr adeiniau yn fforwm y carcharorion i'w dosbarthu ar yr adeiniau. Yn hanesyddol, mae gwell presenoldeb yng nghlinigau'r adeiniau, ac mae'r rhain wedi dechrau cael eu hailgyflwyno gan fod y meddygon teulu wedi cael hyfforddiant fel gweithwyr allweddol ac yn fwy profiadol.

6.2.2 Ni chlywodd y Bwrdd unrhyw bryderon am wasanaethau optegydd nac am driniaeth ddeintyddol. O ran gwasanaethau deintyddol, dim ond gwasanaeth brys sy'n cael ei gynnig i gleifion bellach. Roedd y darparwr deintyddol blaenorol yn rhoi ambell i apwyntiad rheolaidd. Barn y Bwrdd yw bod y gwasanaeth yn ddigonol cyn belled â bod anghenion deintyddol y carcharorion yn cael sylw.

## 6.3 Iechyd meddwl

6.3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, ar gyfartaledd, bu 133 o atgyfeiriadau at y tîm iechyd meddwl bob mis. Bydd aelod o'r tîm yn weithiwr ar ddyletswydd bob dydd, ac mae ar gael ar y radio gydag arwydd galw penodol rhwng 8am a 4pm. Bydd y gweithiwr ar ddyletswydd, a allai fod yn unrhyw un o ymarferwyr cymwys y tîm, yn ymateb i unrhyw alwadau brys, yn mynychu adolygiadau ACCT, ac yn ymweld â charcharorion newydd sydd wedi gofyn am weld gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol.

6.3.2 Fymryn cyn y cyfnod adrodd blaenorol, treialodd y gwasanaeth system newydd, sef dim ond brysbennu'r unigolion hynny sy'n gofyn am gael gweld staff iechyd meddwl yn ystod y broses sgrinio iechyd meddwl yn y dderbynfa, neu'r ail broses sgrinio. Ni fu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd, a theimlwyd bod hyn yn awgrymu bod y tîm iechyd meddwl yn gweld y rheini oedd angen y gwasanaeth, gan arwain at droi'r treial yn rhan o arferion bob dydd. Mae'r tîm iechyd meddwl yn dweud bod y ffordd hon o weithio yn rhyddhau llawer o amser y staff i gynnig ymyriadau i'r rheini sydd ei angen, yn hytrach na'u bod yn sgrinio'r holl garcharorion mewn ffordd generig. **Mae'r Bwrdd yn argymell y dylid parhau i adolygu'r ffordd hon o weithio.**

6.3.3 Bydd y gwasanaeth yn trefnu tri chlinig seiciatrig bob wythnos, gyda chyfartaledd o chwe chlaf newydd yn cael eu hasesiad cychwynnol bob wythnos. Mae clinig ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) wedi parhau i gael ei gynnal. Serch hynny, ers mis Hydref 2023, tarfwyd yn sylweddol ar y driniaeth a roddir i unigolion sydd â ADHD, a hynny oherwydd bod y meddyginiaethau a gaiff eu defnyddio'n gyffredin i drin y cyflwr hwn yn brin drwy'r wlad. Mae'r broblem gyda'r stoc yn parhau, ac er y bu gwelliannau wrth gyflenwi rhai cynhyrchion, nid yw pob un yn ôl mewn stoc. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd triniaeth 19 o garcharorion wedi stopio oherwydd y broblem hon gyda'r feddyginiaeth. Y rhestr aros am asesiad cyntaf ADHD yw rhestr aros hiraf y gwasanaeth, sef 24 wythnos. Mae'r Bwrdd wedi cael ceisiadau am y mater hwn, a bydd yn parhau i fonitro'r effaith ar garcharorion, ond rydyn ni'n deall nad yw'n fater y gall y ganolfan gofal iechyd ei reoli. **Nodir, fodd bynnag, fod y rhestr aros yn 23 wythnos y llynedd, pan nad oedd prinder meddyginiaeth yn broblem.**

6.3.4 Mae'r gwasanaeth yn cynnal ymyriad llwyddiannus ar ffurf grŵp rheoli ymyriadau, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol gan y rheini sydd wedi bod yn rhan ohono. Mae ymyriadau un-i-un yn cael eu cynnig o ran hylendid cwsg, rheoli emosiynau, hwyliau gwael a gorbryder. Bydd cydlynwyr gofal y tîm gofal iechyd meddwl eilaidd yn gofalu am y rheini sydd angen triniaeth am salwch meddwl difrifol a pharhaus, neu bydd ymarferwyr yn gweithio gyda'r cydlynwyr gofal presennol o'r timau iechyd meddwl cymunedol. Mae llwyth achosion y tîm iechyd meddwl gofal eilaidd (mewngymorth) yn amrywio o hyd, a hynny'n adlewyrchiad o faint y boblogaeth. Ond ar gyfartaledd, mae'r llwyth achosion yn 65 o gleifion.

6.3.5 Cafodd pymtheg o gleifion eu trosglwyddo i ysbyty seiciatrig yn ystod y cyfnod adrodd. Trosglwyddwyd tri unigolyn i Ysbyty Tra Diogel Ashworth. Bu'n rhaid i un aros 14 wythnos am wely ar ôl pennu bod angen ei drosglwyddo, a dyna'r hiraf y bu'n rhaid aros. Yr amser cymedrig wrth aros am drosglwyddiad ar ôl pennu bod angen gofal mewn ysbyty oedd 10.2 wythnos. Mae'r ffaith bod pedwar claf wedi aros deg wythnos am wely diogel wedi dylanwadu ar y ffigur hwnnw. Yn ystod y cyfnod adrodd, trosglwyddwyd pedwar claf o fewn pythefnos o ganfod yr angen.

6.3.6 Ym mis Ebrill 2024, roedd gan y tîm iechyd meddwl cynradd staff llawn, gyda thri ymarferydd iechyd meddwl sylfaenol amser llawn; ymarferydd arbenigol

dwysedd mawr, amser llawn; ac ymarferydd iechyd meddwl cynorthwyol sylfaenol sy'n gweithio 30 awr yr wythnos. Yn anffodus, ym mis Hydref 2024, collodd y gwasanaeth glinig cwnsela wythnosol, a hwnnw'n cael ei hwyluso gan ymarferydd gofal sylfaenol cynorthwyol arall, ar gontract 12 awr. Mae'n ymddangos nad oes bwriad i ôl-lenwi'r swydd hon. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â chwnselydd profedigaeth o City Hospice, sy'n cynnal clinig wythnosol. Mae'r galw am yr atgyfeiriadau hyn yn aml yn fwy na'r hyn y gall y ddarpariaeth ei gynnig, ac mae'r rhestr aros wedyn yn cael ei dal yn ôl am y tro.

6.3.7 Mae'r tîm gofal iechyd meddwl eilaidd wedi bod yn gweithredu gyda staff llawn, bron iawn, ers mis Tachwedd 2023, gyda dwy nyrs seiciatrig gymunedol barhaol, amser llawn; therapydd galwedigaethol amser llawn; arweinydd tîm amser llawn, sydd hefyd yn therapydd galwedigaethol; a darpariaeth seiciatreg amser llawn. Mae swydd yr ymarferydd seicolegol wedi bod yn wag ers mis Mehefin 2023. Methodd un rownd recriwtio, ac mae'r swydd wedi'i hail-hysbysebu. Mae gan y gwasanaeth un swydd wag arall ar gyfer technegydd therapi galwedigaethol rhan amser. Er bod y rota dyletswydd iechyd meddwl yn rota saith niwrnod yr wythnos, dros y penwythnos, dim ond un aelod o staff y tîm iechyd meddwl sy'n staffio'r gwasanaeth gan amlaf. **Mae'r Bwrdd yn awyddus i fynegi'i bryder am lefel y staff sy'n gweithio dros y penwythnos, yn sgil y galw sylweddol am gymorth iechyd meddwl yn y carchar.**

### 6.4 Amser allan o'r gell, y gyfundrefn

6.4.1 Fel o'r blaen, mae unigolion nad ydyn nhw'n gweithio ac sydd ar lefel safonol (canol) cynllun cymhellion y carchar[3] yn cael awr allan o'r gell yn y bore ac awr yn y prynhawn. Maen nhw'n cael hanner awr ar gyfer ymarfer corff bob dydd.

6.4.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd tua 518 o lefydd gwaith neu weithgareddau ar gael. Bydd unigolion sy'n cael gwneud gweithgaredd yn cael 3.5 awr allan o'r gell yn y bore a 3 awr yn y prynhawn yn ystod y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos. Nid yw hyn wedi newid ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Bydd gweithwyr a'r rheini sydd ar lefel uwch y cynllun cymhellion wedyn yn cael 1.25 awr o gyswllt gyda'r nos, ac eithrio ar ddydd Mawrth a dydd Gwener. Yn ystod y diwrnod craidd, bydd carcharorion yn mynd i sesiynau'r gampfa o'u gweithle, yn unol â rhaglen y gampfa.

6.4.3 Dros y penwythnos, bydd yr holl garcharorion yn cael mynd allan o'u celloedd am awr o amser cyswllt, yn y bore a'r prynhawn, ac yn cael cyfnod hanner awr i ymarfer corff; mae rhagor o amser ar gael i gasglu prydau bwyd ac unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i phresgripsiynu. Bydd carcharorion ar y lefel uwch allan o'u celloedd, yn y bore a'r prynhawn, am yr holl gyfnod cyswllt, sy'n cyfateb i tua thair awr.

6.4.4 Bydd yr holl garcharorion yn cael cyfle i fynychu amrywiaeth o sesiynau yn y gampfa o leiaf ddwywaith yr wythnos o'u lle gwaith. Mae'r sesiynau'n cynnwys codi pwysau, pêl-droed, clwb colli pwysau a grŵp byw'n iach. Bydd cystadlaethau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn y gampfa, ynghyd â chystadlaethau rhwng adeiniau ar y cae chwaraeon. Buddsoddir mewn cyfarpar ar sail rota yn ystod y flwyddyn, i sicrhau bod cyfleoedd a chyfarpar mewn cyflwr da ar gael i bawb. Dros y penwythnos, bydd carcharorion sydd heb weithgaredd wedi'i neilltuo iddyn nhw yn cael mynychu sesiwn 1.25 awr, yn y bore neu'r prynhawn, gyda lle i 35 o garcharorion ym mhob un. Mae gan bawb gyfle i gael cawod ar ôl cwblhau pob sesiwn yn y gampfa drwy gydol yr wythnos.

[3] Mae gan gynllun cymhellion y carchar lefelau sylfaenol, safonol ac uwch. Bydd carcharorion yn symud i fyny neu i lawr y lefelau yn seiliedig ar eu hymddygiad, gyda'r carcharorion lefel uwch yn cael mwy o freintiau.

## 6.5 Cyffuriau ac alcohol: adsefydlu

6.5.1 Dyfodol (elusen sy'n arbenigo mewn rhoi triniaeth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau) sy'n darparu cymorth ym maes adsefydlu cyffuriau ac alcohol, mewn partneriaeth â G4S, Adferiad a HMPPS. Cyfanswm y llwyth achosion clinigol dros y cyfnod adrodd oedd 2,149. Dechreuodd rheolwr ymyriadau newydd weithio i Dyfodol yn swyddogol ym mis Mai 2024.

6.5.2 Bydd gweithwyr achos yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau parhad yng ngofal eu cleientiaid tra byddan nhw yn y carchar. Bydd cynllun gofal yn cael ei lunio gyda'r cleient yn ystod y cyfnod cynefino / yr asesiad. Mae hwn yn gynllun unigryw y gallan nhw'i gyflawni, a bydd y gweithiwr achos yn cynnal archwiliadau lles rheolaidd i sicrhau bod yr anghenion yn cael sylw. Yn ystod y flwyddyn, penododd Dyfodol weithiwr dyletswydd ACCT. Mae hyn yn galluogi gweithwyr achos i fynychu adolygiadau ar gyfer eu llwyth achosion, a chyfrannu at sicrhau bod anghenion eu cleientiaid yn cael sylw ym mhob agwedd ar fywyd y carchar. Mae hefyd yn golygu trafod â'r asiantaethau priodol i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu, er mwyn rhoi lefel dda o ofal pan fydd carcharorion yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

6.5.3 Mae Dyfodol yn cynnig cymorth/ymyriadau pellach drwy'r broses ddyfarnu yng Ngharchar Caerdydd. Bydd carcharorion sy'n cael dyfarniad (gwrandawiad disgyblu pan amheuir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar), a hwnnw'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, yn cael cynnig opsiwn adsefydlu, lle byddan nhw'n cael ymyriad addas i'w cynorthwyo yn hytrach na chosb. Parhaodd Dyfodol hefyd i roi cymorth i'r holl garcharorion drwy'r broses MDT/UTI (profion cyffuriau gorfodol/o dan ddylanwad) yng Ngharchar Caerdydd i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael.

6.5.4 Wrth ymateb i'r sylweddau seicoweithredol newydd (NPS) sydd bellach ar gael yng Ngharchar Caerdydd, cynhaliwyd nifer o sesiynau grŵp i godi ymwybyddiaeth o 'Spice' ar bob adain; go anwastad oedd y niferoedd a ddaeth i'r rhain ar rai adeiniau. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i godi ymwybyddiaeth am NPZ/nitasin drwy daflenni a thrwy sgwrsio a thrafod, a hynny ymhlith yr holl garcharorion sy'n dod i Garchar Caerdydd. Byddai carcharorion a oedd yn rhan o'r llwyth achosion yn cael gwybodaeth am sut i beidio â llithro yn ôl i'w hen arferion ac am sut i leihau niwed, a hynny'n rheolaidd. Mae'r staff hefyd yn sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r tueddiadau a'r risgiau diweddaraf, a hynny yn y carchar a'r gymuned ill dau.

6.5.5 A hwnnw wedi'i gyflwyno yn y cyfnod adrodd diwethaf, mae Telerecovery/Visionable yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd rhwng gweithwyr achos cymunedol a gweithwyr achos y carchar i wella'r parhad wrth roi gofal. Mae hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio rhwng gweithwyr achos a charcharorion. Mae'n fodd o alluogi carcharorion i ofyn cwestiynau, ac yn helpu i leddfu unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw am gael eu rhyddhau. Mae hefyd wedi'i ddefnyddio rhwng gweithwyr achos yn y gymuned a gweithwyr achos yn y carchar. Mae sesiynau Narcotics Anonymous a Cocaine Anonymous wedi'u cynnal drwy Visionable.

6.5.6 Mae SMART Recovery (rhaglen sy'n helpu pobl i wella o gaethiwed) yn cael ei darparu ar y prif adeiniau preswyl ac ar yr uned byw heb sylweddau dan gymhelliant (A1/ISFL), gan weithio ochr yn ochr â chwrs 12 cam Forward Trust. Mae aelodau'r Bwrdd wedi arsylwi nifer o seremonïau graddio ISFL eleni, a'r rheini'n fodd o amlygu straeon personol carcharorion sy'n cymryd rhan yn y cynllun hwn. Yn

ystod y cyfnod adrodd, graddiodd 14 o garcharorion ISFL a fu'n rhan o'r cynllun 12 cam, a hynny mewn dau grŵp. **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r gwaith a wnaed i gryfhau'r cysylltiad rhwng Dyfodol ac ISFL, gyda'r nod o wella lefel y gofal a'r cymorth y bydd carcharorion yn ei gael ar eu siwrnai wella.**

6.5.7 **Mae'r Bwrdd hefyd yn croesawu cyfraniad cymheiriaid at y gwaith pwysig hwn**. Bydd un o gymheiriaid Dyfodol/ISFL 'band gwyrdd' (carcharor sydd â mwy o ymddiriedaeth ac sy'n gallu symud mwy yn ei waith) yn codi ymwybyddiaeth o naloxone (meddyginiaeth sy'n gwyrdroi gorddos opioid yn gyflym) ymhlith carcharorion sydd i fod i'w rhyddhau y bore canlynol, er mwyn ceisio lleihau'r niwed a ddaw i'w rhan yn y gymuned. Mae holl gymheiriaid Dyfodol wedi cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o hepatitis C/naloxone, tra bo carcharorion ISFL yn cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o naloxone.

## 6.6 Sgiliau meddal

6.6.1 Mae cynllun Gwrandawyr y Samariaid yn gweithredu'n llwyddiannus yng Ngharchar Caerdydd. Cynllun cymorth gan gymheiriaid sy'n ceisio lleihau achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio yw hwn. Mae Gwrandawyr yn garcharorion gwirfoddol sydd wedi'u dewis a'u hyfforddi'n arbennig i roi cymorth emosiynol cyfrinachol i'w cymheiriaid sy'n ei chael yn anodd ymdopi neu'n teimlo fel lladd eu hunain. Mae'n galonogol gweld yn adroddiadau dyddiol y carchar fod Gwrandawyr yn cael eu defnyddio'n gyson i gefnogi'u cyd-garcharorion.

6.6.2 Yn 2024, daeth Carchar Caerdydd yn safle peilot cymheiriaid 'Here 2 Help' – cymheiriaid sydd wedi'u hyfforddi i fentora, gyda'r nod o gryfhau gwydnwch emosiynol yr holl garcharorion. Maen nhw ar gael ar bob adain, gan gynnwys yr adain gynefino, a rhan o'u gwaith yw cefnogi carcharorion sy'n ei chael hi'n anodd dygymod â bywyd yn y carchar. At hynny, rhoddwyd cyfle i bob carcharor a oedd yn dod i'r sefydliad gael hyfforddiant mewn gwydnwch emosiynol fel rhan o broses gynefino eu gwaith. **Mae'r Bwrdd yn siomedig iawn o glywed, yn dilyn y prosiect peilot sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025, na fydd cyllid ar gael wedyn.**

# 7. Cynnydd ac ailsefydlu

## 7.1 Addysg, y llyfrgell

7.1.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd arolwg allanol gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP), tra cynhaliodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) ddau adolygiad mewnol o'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, ar sail disgwyliadau Estyn[4]. Roedd y canlyniadau cyffredinol yn 'dda' yn holl feysydd Estyn. Canfu arolygiad HMPI fod gweithgareddau pwrpasol yn 'rhesymol dda'. Roedd y canlyniadau i garcharorion hefyd yn 'rhesymol dda'. Dim ond mewn nifer bychan o feysydd y gwelwyd tystiolaeth o ganlyniadau gwael i garcharorion. Yn achos y mwyafrif, nid oedd pryderon sylweddol. Lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd mewn addysgu ac yn y cwricwlwm mewn rhai meysydd, ac yn y prosesau adrodd sy'n monitro effaith newidiadau i'r cwricwlwm ar rai dysgwyr. Caiff hyn ei fonitro drwy gynllun datblygu ansawdd mewn grŵp gwella ansawdd. Roedd cynnydd da'n cael ei wneud at yr amcanion yn y rhan fwyaf o'r meysydd.

7.1.2 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r canfyddiadau cadarnhaol yn gyffredinol, ac mae'r aelodau wedi arsylwi arferion da mewn gweithgareddau addysg a gwaith drwy gydol y flwyddyn.

7.1.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, dywedwyd bod 76% o garcharorion, ar gyfartaledd, yn gwneud gweithgareddau pwrpasol, gyda 63% yn gwneud gweithgareddau rhan amser, fan lleiaf. Mewn wythnos arferol, roedd 189 o garcharorion yn cymryd rhan mewn addysg, 186 mewn gwasanaethau, 88 mewn diwydiannau, a chyfartaledd o 20 mewn ymyriadau neu weithgareddau eraill. Bydd nifer o'r carcharorion sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant addysg a sgiliau yn cwblhau'r cyrsiau'n llwyddiannus. Ar adeg arolwg diweddaraf HMIP, roedd 81% o'r gweithgareddau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn ystod 2023-2024. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a wnaeth gynnydd tebyg i'r boblogaeth gyffredinol o ddysgwyr.

7.1.4 Mae gan yr adran gyflogaeth bellach hyfforddwr band 4 i helpu i ddarparu cwrs cyflogaeth, a hwnnw'n cael ei gynnal bum niwrnod yr wythnos. Mae mwy o elfennau llythrennedd a rhifedd yn cael eu dysgu yn y gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith, gyda chyrsiau lefel uwch wedi'u datblygu ar Lefel 2 a Lefel 3. Bydd anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu canfod drwy broses sgrinio'r adran asesu, a thrwy asesiadau diagnostig pellach. Bydd canlyniadau, ac unrhyw anghenion cymorth, yn cael eu cofnodi mewn cynlluniau dysgu a datblygu unigol. Mae addysg allgymorth wedi'i chyflwyno er mwyn helpu i roi sylw i'r anghenion mewn meysydd gweithgareddau pwrpasol eraill.

7.1.5 Rhoddwyd ffocws newydd i'r ddarpariaeth ym maes niwroamrywiaeth er mwyn helpu carcharorion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i wneud cynnydd gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r adran dysgu a sgiliau'n cynnig dewis da o adnoddau sy'n rhoi cymorth ym maes niwroamrywiaeth i ddysgwyr, gan gynnwys mannau darllen a gliniaduron. Mae'r cwricwlwm ar gyfer unigolion niwroamrywiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Rhoddir cymorth ychwanegol i'r rheini sy'n wynebu heriau niwroamrywiol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a hynny drwy weithgareddau addysg, sgiliau a gwaith ehangach.

7.1.6 Cyfeirir at ddau ddosbarth fel 'parthau dysgu', sy'n canolbwyntio ar roi

cymorth ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Mae elusen, sef y Shannon Trust, yn trefnu rhaglen cymorth i ddarllen, a honno'n cael ei goruchwylio gan y rheolwr cymorth niwroamrywiaeth yn y carchar. Mae gan y Shannon Trust gymheiriaid ar bob adain i roi cymorth, ynghyd â chydlynydd band gwyrdd sy'n cefnogi carcharorion eraill ym maes addysg, sgiliau a gwaith.

[4] Estyn yw arolygiaeth addysg Cymru. Y corff cyfatebol yn Lloegr yw Arolygiaeth Addysg Ei Fawrhydi.

7.1.7 Roedd mwy o ofod ar gael ar gyfer ystafelloedd dosbarth a gweithdai hyfforddi ar ôl ailagor un gweithdy, a hynny'n dilyn gwaith adnewyddu sylweddol. Yn ddiweddarach yn 2023, fodd bynnag, caeodd dau weithdy gan fod yr adeiladau wedi dirywio ormod.

7.1.8 Mae'r llyfrgell wedi bod ar agor drwy gydol y cyfnod adrodd, ar ffurf prif lyfrgell a dwy lyfrgell loeren ar adeiniau yn y carchar, yn ogystal â darpariaeth ar y rhan fwyaf o'r adeiniau preswyl.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

7.2.1 Roedd gwasanaethau hanfodol y carchar, h.y. y gegin, rheoli gwastraff, golchi dillad a phacio brecwast, yn weithredol drwy gydol y cyfnod adrodd. Ymhlith cyfleoedd gwaith eraill roedd glanhawyr y carchar, hyrwyddwyr cwrteisi, a chymheiriaid adeiniau. Roedd rhai gweithdai hefyd yn rhoi gwaith, er enghraifft argraffu, creu arwyddion a threfnu storfa'r cantîn. Ariannodd adran dysgu a sgiliau Agored Cymru (y corff dyfarnu Cymreig) gymwysterau i achredu sgiliau y byddai carcharorion yn eu meithrin yn y meysydd golchi dillad a rheoli gwastraff.

7.2.2 Yn ogystal â'r cwrs cyflogaeth i garcharorion sydd â 12 wythnos neu lai o ddedfryd ar ôl, roedd darpariaeth 'parod am waith' ychwanegol. Roedd y ddarpariaeth hon yn canolbwyntio ar feithrin gwydnwch a sgiliau cyflogadwyedd pwysig (fel cyfathrebu, gwaith tîm, meddwl yn greadigol a phrydlondeb). Byddai hyn yn helpu carcharorion i fod yn llwyddiannus ac i gael gwaith tymor hir.

7.2.3 Roedd cymwysterau cydnabyddedig yn dal yn rhan bwysig o'r hyfforddiant sgiliau. Y nod yw rhoi hyfforddiant sylfaenol a 'chyrsiau blasu' sy'n cynnig credydau mewn dysgu achrededig unedol. Roedd cymwysterau ar gael yn y gweithdy lletygarwch ac yn y gweithdy TG/argraffu sylfaenol mewn dylunio, Microsoft Word a PowerPoint.

7.2.4 Bydd yr adran addysg a hyfforddiant yn dadansoddi anghenion y farchnad lafur wrth gynllunio rhagor o weithdai a hyfforddiant. Yn ystod y flwyddyn adrodd, ehangwyd yr hyfforddiant mewn gwaith toi a Railtrack ar ôl sicrhau cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae Rhaglen Sgiliau'r Dyfodol wedi rhoi hyfforddiant mewn sgaffaldwaith tan fis Mawrth 2025. Ar ôl i ddau o adeiladau gweithdy ddirywio ormod ddiwedd mis Tachwedd 2023, ni ellir rhoi hyfforddiant mewn plastro/leinio sych. Serch hynny, rhoddwyd mwy o gyfleoedd i gael hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys ym meysydd sgaffaldwaith, gwaith to, rheoli traffig a sgiliau adeiladu sylfaenol.

7.2.5 Parhaodd y carchar i wneud cyswllt ac i feithrin perthynas â chyflogwyr allanol, gan gadw golwg ar gynnydd carcharorion gyda chyflogwyr mawr pan fydden nhw'n cael eu rhyddhau. Bu brocer cyflogaeth y Rhwydwaith Dyfodol Newydd yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfweliadau a lleoliadau i garcharorion. Mae'r adran gyflogaeth yng Ngharchar Caerdydd wedyn yn adolygu'r meini prawf i baru carcharorion â darpar gyflogwyr.

7.2.6 Bu llawer o gynlluniau i feithrin y berthynas rhwng cyflogwyr a charcharorion. Yn eu plith roedd dau ddigwyddiad ailsefydlu, a oedd yn cynnwys cymorth ym maes tai, gwasanaethau mentora a darparwyr yn y maes cyflogaeth. Roedd yr adborth am y ddau ddigwyddiad yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae disgwyl parhau â'r digwyddiadau hyn bob chwarter. Cynhaliodd Rhaglen Sgiliau'r Dyfodol ddiwrnod i gyflogwyr bob tro y bydden nhw'n darparu'r cwrs hyfforddiant

wythnos o hyd mewn sgaffaldwaith, a hynny er mwyn cyflwyno'r carcharorion a oedd yn cwblhau'r cwrs i gyflogwyr yn y diwydiant.

7.2.7 Mae ffigurau'n cael eu casglu am garcharorion sydd mewn gwaith chwech wythnos a chwe mis ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau, ond nid oes ffigurau ar gael ers dechrau'r cynllun trwydded goruchwyliaeth wedi'r carchar (ECSL) ym mis Ebrill. Mae hyn yn dilyn hysbysiad cenedlaethol a wnaed ddiwedd mis Mehefin 2024, a hwnnw'n rhoi gwybod y byddai'r dulliau mesur perfformiad yn dod i ben ar ôl newidiadau yn y gwasanaeth prawf. Yn ôl ffigurau chwe mis cyfanredol, rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ebrill 2024, mae 24% o'r rheini sy'n cael gwaith wrth gael eu rhyddhau yn dal mewn gwaith ar ôl chwe wythnos, a 39% yn dal mewn gwaith ar ôl chwe mis.

## 7.3 Rheoli troseddwyr, cynnydd

7.3.1 Mae gan yr uned rheoli troseddwyr (OMU) staff llawn, bron iawn, heb achosion wedi ôl-gronni yn y system asesu troseddwyr (OASys). Isel iawn o hyd yw nifer staff yr OMU ar yr adeiniau sy'n cael eu symud, yn ôl yr uwch swyddog prawf. Gan fod Carchar Caerdydd yn garchar hyfforddi lleol, nid yw rhaglenni ymddygiad troseddol yn cael eu cynnig. Serch hynny, gall rheolwyr troseddwyr carchardai (POMs) wneud gwaith un-i-un â charcharorion unigol. Nid yw carcharorion ar remand, sy'n gyfran sylweddol o boblogaeth Carchar Caerdydd, yn rhan o gylch gwaith yr OMU, ond gallan nhw ofyn am gael gweld POM ynghylch materion penodol.

7.3.2 Cafodd diwedd y cynllun ECSL effaith ar sut mae'r POMs yn gweithio, oherwydd y prosesau newydd a gyflwynwyd yn sgil hyn. Mae'r canllawiau ar gyfer delio ag achosion o dan y cynllun ECSL wedi newid sawl tro, ac mae hynny wedi bod yn dalcen caled i staff yr OMU. Serch hynny, dywedwyd wrth y Bwrdd fod y cyfweliadau cyn rhyddhau wedi'u cwblhau, gyda newidiadau i'r amseru er mwyn rhoi sylw i alwadau'r cynllun ECSL. Yn yr un modd, mae cynlluniau newydd, fel y cynllun dedfrydau penodol safonol (SDS40) a'r cynllun ailgategoreiddio rhagdybiadol dros dro (TPRS) wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hynny wedi ychwanegu at y gwaith y mae'n rhaid i POMs ei wneud i ymgyfarwyddo â'r canllawiau newydd, ac wedi cynyddu'r risg o gamgymeriadau posibl. Serch hynny, teimlai'r uwch swyddog prawf fod staff yr OMU wedi ymateb i'r her yn llwyddiannus ac roedd yn teimlo bod y systemau a oedd bellach wedi'u cyflwyno ar gyfer y cynllun SDS40 yn ei alluogi i weithredu'n well.

7.3.3 Bydd staff yr OMU yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau eraill, y tu mewn a'r tu allan i'r carchar, gan gynnwys y tîm ailsefydlu, Dyfodol, y tîm diogelwch, yr adran gyflogaeth, yr heddlu a'r tîm seicoleg. Dywedodd staff y gallai fod gan wahanol adrannau farn groes am amcanion adsefydlu a chynlluniau dedfryd carcharorion. Ar adegau, gallai hynny arwain at ddrwgdeimlad. Serch hynny, roedden nhw'n dweud bod y cyfathrebu rhwng gwahanol rannau o'r carchar wedi bod yn effeithiol ac yn gynhyrchiol ar y cyfan. Nid oes gan y Bwrdd bryderon am waith yr OMU, ac eithrio ei fod yn nodi effaith y cynllun ECSl a'i effaith bosibl yn y dyfodol os bydd y cynllun yn parhau.

## 7.4 Cyswllt â'r teulu

7.4.1 Dechreuodd Invisible Walls eu contract i roi cymorth gyda gwaith teulu yn 2022-2023. Ymhlith ei wasanaethau mae rhoi cyngor a chefnogaeth, cysylltu ag asiantaethau allanol fel gwasanaethau cymdeithasol, a gofalu am yr adran ymweliadau a'r neuadd ymweliadau, gan gynnwys caffi Y Cwtch. Mae'r Bwrdd yn

nodi bod y sefydliad wedi datblygu ar ei lwyddiant cynnar ac wedi parhau i roi gwasanaeth pwysig dros ben i garcharorion a'u teuluoedd.

7.4.2 Bydd deg niwrnod teuluol yn cael eu cynnal bob blwyddyn (diwrnodau sy'n dod â charcharorion a theuluoedd ynghyd y tu allan i'w hawliau statudol i gael ymweliadau cymdeithasol, gan amlaf mewn lleoliadau mwy anffurfiol). Mae'r rhain yn cael eu hwyluso'n rhannol gan gwmni allanol, Animals Interactive, ar ôl cael sylwadau hynod o gadarnhaol gan deuluoedd am ddefnyddio anifeiliaid sydd wedi'u hyfforddi i roi therapi. At hynny, mae Invisible Walls hefyd yn cynnig paentio wynebau, tatŵs gliter, crefftau a ffotograffau teuluol, a'r rheini'n cael eu hanfon ar e-bost. Bob mis, bydd amrywiaeth o weithgareddau ac ymyriadau'n cael eu darparu, gan gynnwys:

- Diwrnodau lles cymunedol i'r rheini sydd heb gyswllt â'u teuluoedd.
- Grŵp babis pandas chwareus.
- Cwrs diogelwch ffyrdd 'Effaith Domino': rhaglen ymwybyddiaeth i garcharorion sy'n oedolion ifanc, yn cael ei chynnal ar y cyd â Gwasanaeth Tân De Cymru.
- Hwyluso ymweliadau arbenigol wedi'u goruchwylio ar gyfer plant.

7.4.3 Yn y cyfnod adrodd hwn, cyflwynodd Invisible Walls ei ddigwyddiad diwrnod ysgol ('School Zone'). Roedd wyth o ysgolion a theuluoedd yn bresennol, ac roedd cyfle i'r plant ddangos eu gwaith ysgol i'w tadau ym mhresenoldeb eu hathrawon. Mae'r ymyriad hwn yn helpu i hybu addysg a lles emosiynol plant. Cynhaliwyd dwy arddangosfa lwyddiannus yn y cyfnod adrodd. Unwaith eto, tynnwyd ffotograffau teuluol a chafodd y plant fag anrhegion a llyfr i nodi'r achlysur.

7.4.4 Mae'r gwasanaethau teuluol hefyd wedi croesawu'r ci therapi, Casper, i'r tîm. Mae'n boblogaidd tu hwnt ymhlith teuluoedd a charcharorion. Bydd Casper yn dod i'r carchar bob wythnos ac yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r ymyriadau.

7.4.5 Mae aelodau'r Bwrdd wedi arsylwi nifer o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn yn ystod y cyfnod adrodd, ac mae'r rhain i gyd wedi'u trefnu'n dda. Mae'r carcharorion, eu rhieni a'u plant wedi'u mwynhau'n arw. **Mae'r Bwrdd yn cydnabod natur gadarnhaol, amrywiol ac arloesol y gwaith cymorth teuluol hollbwysig a wneir gan Invisible Walls**.

## 7.5 Cynllunio ailsefydlu

7.5.1 Ym mis Awst 2024, arolygodd y Bwrdd 23 o ddynion a oedd i fod i gael eu rhyddhau o fewn wythnos, gan edrych ar eu cynlluniau ar gyfer ailsefydlu. Dywedodd pedwar ar ddeg nad oedd ganddyn nhw lety wedi'i drefnu ar gyfer eu noson gyntaf, gan gynnwys un carcharor oedd yn yr uned gofal iechyd oherwydd salwch meddwl difrifol. At hynny, dywedodd rhai carcharorion nad oedden nhw'n gwybod eu bod nhw i fod i gael eu rhyddhau y diwrnod canlynol.

7.5.2 Mae'r Bwrdd yn nodi bod data'r carchar yn dangos bod 84% o'r carcharorion a ryddhawyd o Gaerdydd ym mis Gorffennaf wedi cael llety ar y noson gyntaf, felly mae'n bosibl bod llety'n cael ei ganfod yn hwyr iawn, neu nad oedd y carcharorion a arolygwyd yn gynrychioladol o boblogaeth ehangach y carchar. Cydnabyddir hefyd yr effaith y gall y cynlluniau rhyddhau'n gynnar ei chael, o ran cynllunio a threfnu adnoddau. Serch hynny, mae'r Bwrdd yn dal i bryderu am ganfyddiadau ei arolygon yn gysylltiedig â materion llety a gwaith, ynghyd â'r cymorth ehangach sy'n cael ei roi cyn rhyddhau carcharorion.

7.5.3 Yn unol â'r model gweithio ar gyfer ailsefydlu yng Nghymru, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod staff ailsefydlu Carchar Caerdydd yn cyfweld â'r holl garcharorion cyn eu rhyddhau ac yn trosglwyddo gwybodaeth i'r rheolwyr troseddwyr cymunedol (COMs), sy'n gwneud atgyfeiriadau canolog i'r Forward Trust a'r St Giles Trust o ran ailsefydlu, atgyfeirio a gwerthuso (CORRE). Gellir cyfeirio carcharorion yn uniongyrchol at y Forward Trust os ydyn nhw yn y carchar am 20 diwrnod neu lai.

7.5.4 Fel yn y flwyddyn adrodd flaenorol, roedd y Forward Trust yn delio ag atgyfeiriadau tai i awdurdodau lleol. Dim ond un aelod rheolaidd o staff oedd yng Ngharchar Caerdydd yn ystod y cyfnod adrodd, ac eithrio am gyfnod byr pan oedd dau aelod o staff yno. Oherwydd hyn, dim ond carcharorion oedd wedi cael dedfrydau oedd yn dod yn rhan o'r llwyth achosion. Mae contract newydd wedi'i sicrhau er mwyn i weithiwr arall ddelio ag achosion remand, a dechreuodd y gweithiwr hwn gael atgyfeiriadau remand o fis Awst 2024. Clywodd y Bwrdd nad oes gan y rhan fwyaf o'r carcharorion a gaiff eu cyfeirio at y Forward Trust gyfeiriad sefydlog.

7.5.5 Roedd y galw am gymorth gan y Forward Trust yn dal yn uchel yn ystod y cyfnod adrodd, yn enwedig o ran y cynllun ECSL ac adalw tymor byr, a hynny hefyd yn creu ansicrwydd ynghylch dyddiadau rhyddhau. Parhaodd y duedd yn y flwyddyn adrodd lle bu atgyfeiriadau'n cyrraedd gyda dim ond rhyw wythnos i fynd tan y dyddiad rhyddhau. Gyda dim ond un gweithiwr ar y safle, golygai hyn fod mwy o bwysau ar yr unigolyn hwn i gwblhau tasgau cyn i garcharorion cael eu rhyddhau.

7.5.6 Mae dau o aelodau staff y St Giles Trust wedi cael hyfforddiant fel gweithwyr allweddol ac yn ymweld â'r carchar bob pythefnos, a bydd mwy o staff yn cael eu hyfforddi. O dan y llwybr 'cynhwysiant cymdeithasol', darperir tair sesiwn yr un i garcharorion, gan ganolbwyntio ar y cymorth sydd wedi'i drefnu ar gyfer rhyddhau, fel yn y meysydd teulu a thai. Maen nhw hefyd yn gallu cwrdd â charcharorion 'wrth y giât' er mwyn parhau i gynnig help gyda materion tai, cyllid a gwaith. Darparwyd rhwng pump a deg sesiwn i bob carcharor, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achosion.

7.5.7 Yn debyg i dimau eraill sy'n gwneud gwaith ailsefydlu, wynebodd staff St Giles broblemau hefyd yn sgil y cynllun ECSL, gan fod rhai atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar fyr rybudd.

7.5.8 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ne-ddwyrain Cymru yn gweithio yng ngharchardai Caerdydd, Brynbuga a Phrescoed, a chlywodd y Bwrdd fod y tîm hwn yn dal heb ddigon o staff yn ystod y cyfnod adrodd, gan arwain at sefyllfa lle roedd y staff yn teimlo o dan bwysau yn sgil eu llwyth gwaith trwm.

7.5.9 Bu hyfforddwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn helpu carcharorion i wneud cais am fudd-daliadau, i drefnu apwyntiadau'r Ganolfan Waith, ac i ddefnyddio adnoddau eraill y Ganolfan Waith, gan weld 150 o garcharorion ar gyfartaledd bob mis. Clywodd y Bwrdd fod y cynllun ECSL yn arwain at ryddhau carcharorion yn sydyn neu at newid cynlluniau ailsefydlu carcharorion. Mae hyn wedi golygu bod hyfforddwyr wedi gorfod gweithio gyda charcharorion gwta wythnos cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau, o'i gymharu â phythefnos mewn amgylchiadau arferol. Mae hyn wedi arwain at anawsterau wrth drefnu apwyntiadau yn y Ganolfan Waith i'r carcharorion hyn. At hynny, ar adegau, ni chafodd yr Adran Gwaith a Phensiynau wybod am y newidiadau i ddyddiadau rhyddhau. Mae hyfforddwyr gwaith, felly, wedi gorfod cadarnhau'r manylion hyn eu hunain.

7.5.10 Cynhaliodd yr Adran Gwaith a Phensiynau brosiect gyda Byddin yr Iachawdwriaeth hefyd i gefnogi carcharorion ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. O blith y 22 o leoliadau, cwblhaodd 14 o garcharorion y rhaglen yn llwyddiannus. Byddai rhywun yn cwrdd â'r carcharorion wrth y giât, a bydden nhw'n cael manylion cyswllt canolfannau Byddin yr Iachawdwriaeth yn yr ardal. Bydden nhw'n cael cymorth i fynd i apwyntiadau, i agor cyfrifon banc, i drefnu llety ac i wneud ceisiadau am swyddi.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell | 14 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 12 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 10 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 353 |

**Ceisiadau i'r Bwrdd**

| Cod | Pwnc | Y flwyddyn adrodd flaenorol | y flwyddyn adrodd bresennol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 25 | 33 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau | 31 | 18 |
| C | Cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys crefydd) | 2 | 6 |
| D | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell | 29 | 27 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau, diogelu'r cyhoedd | 38 | 34 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 24 | 23 |
| F | Bwyd a cheginau | 7 | 11 |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | 62 | 97 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 25 | 15 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall | 35 | 7 |
| H3 | Y cantîn, rhestr cyfleusterau, catalogau | 19 | 15 |
| I | Rheoli dedfrydau, gan gynnwys HDC (cyrffyw cyfyngu i'r cartref), ROTL (rhyddhau ar drwydded dros dro), parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio | 46 | 24 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | 36 | 45 |
| K | Trosglwyddiadau | 11 | 9 |
| L | Amrywiol | 50 | 22 |
| L1 | Y system gwyno | 21 | 8 |
| | **Cyfanswm y ceisiadau** | **461** | **394** |

## Atodiad A

### Darparwyr gwasanaethau

Mae amrywiaeth o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y carchar:

- Gwasanaethau iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Sgiliau a dysgu: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru
- Gwasanaethau hebrwng: GeoAmey
- Cynnal a chadw ar y safle: Amey
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau: Dyfodol
- Cwnsela mewn profedigaeth: City Hospice
- Canolfan ymwelwyr/cymorth i deuluoedd: Invisible Walls
- Cymorth ailsefydlu: St Giles, Forward Trust a Thîm Ailsefydlu Prawf HMPPS Cymru
- Cynllun gwrandawyr: Y Samariaid
- Cymorth llythrennedd: Shannon Trust

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3
Lle’r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications
Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn aton ni yn imb@justice.gov.uk